Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Cynllun Gwaith Ofcom 2021/22 - ymatebion rhanddeiliaid

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**Atodiad Datganiad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mawrth 2021

# A1. Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Digwyddiadau ymgynghori ac ymatebion

A1.1 Fe wnaethom gyhoeddi ein cynllun gwaith arfaethedig ar 11 Rhagfyr 2020 ar gyfer ymgynghori.

A1.2 Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021, fe wnaethom gynnal cyfres o rith-ddigwyddiadau. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol am flaenoriaethau Ofcom.

A1.3 Cawsom 227 o ymatebion ysgrifenedig i'n cynllun gwaith arfaethedig gan gwmnïau cyfryngau a chyfathrebu, cyrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion.

A1.4 Rydym wedi ystyried pob cyflwyniad wrth lunio ein cynllun gwaith terfynol, ac rydym wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.[1] Isod, rydym wedi darparu crynodeb o’r ymatebion a gafwyd, ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwyntiau, wedi’u grwpio yn ôl blaenoriaeth strategol.

## Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel

### Y band sbectrwm 26GHz

A1.5 Anogwyd Ofcom gan Qualcomm i ryddhau sbectrwm yn y band 26 GHz cyn gynted â phosibl er mwyn gallu defnyddio amrywiaeth o dechnolegau gan gynnwys Mynediad Di-wifr Sefydlog 5G. Mynegodd y Joint Radio Company bryderon ynghylch ymyriant posibl yn y band i gysylltiadau sefydlog o gyflwyno 5G a nododd bwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yn well y risg o niwed a’r dewisiadau ar gyfer lliniaru.

#### Ein hymateb

A1.6 Roedd ein map ar gyfer sbectrwm symudol, gan gynnwys 5G, wedi nodi bandiau gwahanol ar draws gwahanol ystodau amledd.[2] Rydym eisoes wedi agor mynediad at 26 GHz i’w ddefnyddio dan do ac i 66-71 GHz, a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod 2021/22 ynghylch dyfarnu amleddau mewn 26 GHz. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid i osgoi ymyriant rhwng gwahanol wasanaethau.

### Strategaeth Sbectrwm

A1.7 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Joint Radio Company, yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth sbectrwm, gan nodi pwysigrwydd ymgysylltu er mwyn deall gofynion rhanddeiliaid. Nododd y Gynghrair Wi-Fi bwysigrwydd Wi-Fi mewn cysylltedd yn y dyfodol a gofynnodd i Ofcom ystyried ehangu mynediad Wi-Fi i'r band 6425-7125 MHz.

[1] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/plan-of-work-2021-22
[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/111883/enabling-5g-uk.pdf

Awgrymodd y Joint Radio Company y dylai Ofcom adolygu’r pethau sy’n rhwystro mynediad at y sbectrwm Gweithredwr Rhwydwaith Symudol a rennir.

A1.8 Awgrymodd BT y dylai Ofcom ymgynghori ar brisiau sbectrwm darlledu gan adlewyrchu costau cyfle ac annog deialog ar draws y diwydiant ynghylch y ffordd fwyaf diogel o awdurdodi dronau.

A1.9 Gofynnodd Oneweb i Ofcom ystyried technoleg sbectrwm orbit isel y ddaear i ddarparu cyfathrebiadau yn y Deyrnas Unedig.

**Ein hymateb**

A1.10 Mae’r defnydd cynyddol o dechnolegau symudol a di-wifr ar draws amrywiaeth eang o sectorau diwydiant yn gyrru datblygiad llawer o achosion defnydd newydd. Amcan Ofcom yw sicrhau bod gwahanol defnyddwyr y sbectrwm yn gallu cael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw, yn y fan ac ar yr adeg mae angen yr adnoddau hynny arnyn nhw. Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad i agor mynediad i 5925-6425 ym mis Gorffennaf 2020. Wrth i ddi-wifr barhau i chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o gyflawni trawsnewid digidol, byddwn yn parhau i fonitro’r galw gan bob defnyddiwr a byddwn yn ymgysylltu â llinellau fertigol y diwydiant er mwyn deall eu hanghenion sy’n esblygu’n well a sicrhau nad yw sbectrwm yn rhwystro arloesi.

A1.11 Nodwn sylwadau’r Joint Radio Company a chydnabyddwn bwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid i osgoi ymyrraeth rhwng gwahanol wasanaethau.

A1.12 Nid yw'n fwriad gennym ddechrau gweithio ar gyflwyno prisio cymhellol wedi ei weinyddu ar gyfer darlledu wrth i’r Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fynd rhagddo ac wrth i drafodaethau fynd rhagddyn nhw ynghylch defnyddio’r sbectrwm UHF yn y dyfodol yng nghynhadledd radio'r byd yn 2023. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu’r sefyllfa. Rydym yn bwriadu cyhoeddi map sbectrwm a fydd yn amlinellu ein meysydd ffocws gan ystyried datblygiadau technoleg a marchnad rhyngwladol.

A1.13 Nodwn y pwyntiau a wnaed gan OneWeb ar ddefnyddio technoleg LEO i ddarparu mynediad i gymunedau anghysbell a gwledig. Byddwn yn parhau â’n gwaith sbectrwm i alluogi defnyddio’r dechnoleg hon, ac yn ystyried ymhellach ei gallu i ddarparu cysylltedd mewn lleoliadau gwledig ac anghysbell.

## Materion eraill yn ymwneud â'r sbectrwm

A1.14 Nododd y Joint Radio Company bwysigrwydd sbectrwm i gyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd y Deyrnas Unedig ac i’r sector ynni, gan annog Ofcom i sefydlu trefniadau rhannu sbectrwm i gefnogi gwell swyddogaethau rhwydwaith, ond awgrymodd y byddai cyflawni amcanion sero carbon net yn her.

A1.15 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Federated Wireless Inc, yn cefnogi ymdrechion Ofcom i awtomeiddio trwyddedu sbectrwm a chaniatáu rhannu sbectrwm yn ddeinamig. Anogodd y Joint Radio Company Ofcom i brofi systemau awdurdodi awtomataidd a sefydlu arweiniad priodol drwy weithio gydag ymgeiswyr presennol am drwyddedau. Mynegodd

Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu bryderon am y systemau awdurdodi awtomatig, a nododd fod problemau gyda thrwyddedau a oedd wedi eu neilltuo’n dechnegol, ac a oedd wedi eu cofnodi ar y system bresennol, heb gael eu cwblhau.

A1.16 Nododd y Joint Radio Company hefyd, er bod y diwygiadau i’r meini prawf cyfeirio at Feysydd Electromagnetig ac Iechyd i’w croesawu, y gallen nhw fod yn heriol i safleoedd aml-ddefnyddwyr, gan annog Ofcom i adolygu effeithiolrwydd y rheoliadau ar ôl eu rhoi ar waith.

### Ein hymateb

A1.17 Mae ein gwaith sy’n edrych ar anghenion cyfathrebu’r sector ynni (a chyfleustodau eraill), a’r ffordd orau o ddiwallu’r anghenion hyn, yn parhau (daw i ben yn 2023). Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant, Llywodraethau a rheoleiddwyr eraill i gefnogi amcan carbon niwtral y Deyrnas Unedig.

A1.18 Nodwn y sylwadau a godwyd gan yr FCS mewn perthynas â materion gyda Thrwyddedau Technegol, ac mae’r materion hyn yn cael sylw.

A1.19 Nodwn y sylw a wnaed gan y Joint Radio Company ar EMF a’r heriau i safleoedd aml-ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant ar unrhyw her o ran cydymffurfiaeth ymarferol.

## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

A1.20 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi ein gwaith i sicrhau bod rhwydweithiau’r Deyrnas Unedig yn ddiogel ac yn gadarn, ac fe wnaeth BT a TalkTalk annog Ofcom i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori ynghylch y fframwaith, effeithiau busnes a manylebau technegol am gyfnod priodol. Fe wnaeth FCS annog Ofcom i sicrhau bod y gofynion ar ddarparwyr llai yn gymesur ac yn ymarferol. Nododd y Joint Radio Company y gallai gofynion cadernid rhwydwaith ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael mynediad at sbectrwm ychwanegol i reoli capasiti. Anogodd Pwyllgor Cynghori Ofcom Cymru Ofcom i gynnal rhagor o ymchwil i sicrhau bod gan Gymru byrth cadarn i gael mynediad at gysylltedd rhyngwladol.

### Ein hymateb

A1.21 Daw’r sail ar gyfer y rhan fwyaf o waith presennol Ofcom gyda darparwyr telegyfathrebiadau ar ddiogelwch a chadernid o Adran 105A-D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae’r Bil Telathrebu (Diogelwch), sy’n mynd drwy’r Senedd ar hyn o bryd, yn bwriadu cyflwyno fframwaith diogelwch telegyfathrebiadau newydd yn ei le. Disgwylir i hyn gynnwys newidiadau i’r Ddeddf, gydag Is-ddeddfwriaeth sy’n cynnwys Rheoliadau, a Chodau Ymarfer a gyhoeddir gan y Llywodraeth. Rôl Ofcom fydd sicrhau cydymffurfiad â’r fframwaith hwn, ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau gweithdrefnol a’u cyhoeddi, er mwyn nodi sut mae Ofcom yn disgwyl cyflawni hyn. Fodd bynnag, mae

ymgynghori ar y fframwaith ei hun, sef yr Offeryn Statudol a'r Codau Ymarfer, yn faterion i Lywodraeth y DU.

A1.22 Mae darpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'w gymhwyso'n gymesur, ac felly o reidrwydd bydd angen i Ofcom ystyried materion fel maint a natur y darparwr penodol wrth fonitro ac asesu cydymffurfiaeth. Ar ben hynny, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi nodi ei bod yn bwriadu cyflwyno tair haen o ddarparwyr yn ei chod ymarfer cychwynnol, gyda disgwyliadau a goruchwyliaeth Ofcom o bob haen yn amrywio yn unol â'u maint.[3]

A1.23 Mae cadernid rhwydweithiau telegyfathrebu yn ystyriaeth bwysig yn ein gwaith sy'n edrych ar rôl sbectrwm o ran cefnogi rhwydweithiau dosbarthu ynni i gyrraedd targedau'r Llywodraeth o ran niwtraliaeth carbon.

A1.24 Mae cysylltedd rhyngwladol i'r Deyrnas Unedig yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfathrebiadau gan ddefnyddio nifer o geblau ffeibr o dan y môr a chyfleusterau eraill sydd wedi eu gwasgaru'n eang ac sy'n darparu'r lefelau segur sydd eu hangen i sicrhau cadernid priodol.

## Openreach

A1.25 Nododd Ravi Savur broblem gyda chyfrifoldebau ynghylch gwasanaeth band eang gwael i ddarparwyr ar rwydwaith Openreach a thynnodd sylw at achos lle roedd BT yn gallu lansio cynnyrch Ffeibr Llawn cyn darparwyr eraill, gan awgrymu bod BT yn gallu cael gafael ar wybodaeth cyn darparwyr eraill. Awgrymodd BT fod Ofcom yn diweddaru'r ymrwymiadau er mwyn iddyn nhw aros yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

A1.26 Awgrymodd Giuseppe Solazzo y dylai fod yn ofynnol i Openreach ystyried amddifadedd wrth gynllunio lleoliadau ffeibr.

### Ein hymateb

A1.27 Ym mis Gorffennaf 2017, sefydlodd Ofcom Uned Monitro Openreach (OMU) i fonitro'r gwaith o fabwysiadu'r ymrwymiadau a oedd yn golygu bod Openreach yn cael ei wahanu'n gyfreithiol oddi wrth BT. Bydd yr Uned yn parhau i fonitro'r trefniadau hyn yn ystod 2021 a bydd yn llunio'r adroddiad monitro blynyddol nesaf ar y cynnydd yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i fonitro ymrwymiad Openreach i ymgysylltu â'r diwydiant a gweithredu mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod ei gwsmeriaid yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac yn gallu defnyddio gwasanaethau Openreach yn yr un ffordd â BT.

A1.28 Bydd monitro'r ymrwymiadau'n barhaus yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, ond rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod yr ymrwymiadau'n dal yn berthnasol ac yn briodol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried yr amser priodol i ni gynnal adolygiad ehangach ynghylch a yw'r ymrwymiadau a gwahanu Openreach yn gyfreithiol yn cyflawni'r

[3] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Taflen ffeithiau 2: New Telecoms Security Framework - GOV.UK (www.gov.uk)

canlyniadau a fwriadwyd gan yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, gan gynnwys a yw’r trefniant hwn yn sicrhau’r canlyniadau cywir i ddefnyddwyr.

## Strategaeth Symudol

A1.29 Gofynnodd Paul Wheelhouse ASA, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Ynni, Cysylltedd a’r Ynysoedd, i Ofcom gynnwys swyddogion Llywodraeth yr Alban yn y broses o ddatblygu’r strategaeth symudol. Gofynnodd BT i Ofcom edrych yn ehangach ar brosiect y strategaeth symudol, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu wedi ei gyfuno yn ogystal ag ystyriaethau symudol traddodiadol.

**Ein hymateb**

A1.30 Bydd y strategaeth symudol yn edrych tua’r dyfodol wrth i ni anelu at ei defnyddio fel sail i’n gwaith rheoleiddio yn y dyfodol yn ogystal â chefnogi cysylltedd o ansawdd uchel a hyrwyddo arloesi. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â grŵp eang o randdeiliaid drwy gydol y prosiect hwn a byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn yr hydref.

## Niwtraliaeth y rhyngrwyd

A1.31 Awgrymodd BT bod y newid i ddulliau digidol yn golygu mai nawr yw’r amser i ystyried sut gall rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd ategu canlyniadau i ddefnyddwyr yn y ffordd orau a buddsoddi mewn rhwydweithiau.

**Ein hymateb**

A1.32 Rydym wedi ychwanegu edrych ar y fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd at y cynllun gwaith. Byddwn yn edrych ar y fframwaith i sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y ffordd orau, gan gynorthwyo arloesi ac ystyried sut mae rhwydweithiau a gwasanaethau wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

## Adolygiad o’r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol

A1.33 Dywedodd Llywodraeth yr Alban ei bod yn bwysig sicrhau bod y Adolygiad hwn yn ystyried heriau penodol o ran cyflwyno ar gyfer yr Alban a chynigion ar gyfer cyflwyno ffeibr yn yr Alban, fel y rhaglen ‘Reaching 100%’. Mynegodd TalkTalk bryderon am y cydbwysedd rhwng diogelu busnesau a defnyddwyr ac annog buddsoddiad, gan ddadlau mai dim ond cynnydd bach mewn buddsoddiad y gallai’r Adolygiad ei ddarparu. Awgrymodd TalkTalk fod Ofcom yn defnyddio'r cap prisiau ar y cynnyrch FTTC80/20 yn hytrach na'r cynnyrch FTTC 40/10, gan osod y cap prisiau yn CPI-CPI mewn ardaloedd cystadleuol, atal cymorthdaliadau rhag cael eu darparu i Openreach mewn ardaloedd nad ydyn nhw’n gystadleuol lle mae cysylltiad ffeibr i'r adeilad eisoes wedi cael ei gyflwyno, addasu cynigion i beidio â gwerthu er mwyn cymell Openreach i rannu risg yn well a chryfhau cynigion ansawdd gwasanaeth. Awgrymodd TalkTalk hefyd y dylai Ofcom ddiwygio cynigion yr Adolygiad i leihau’r cynnydd arfaethedig mewn prisiau band eang a monitro’r gwaith o

gyflwyno cysylltiad ffeibr i'r adeilad altnet gyda’r bwriad o leihau’r rhwystrau i’w ddefnyddio. Yn olaf, nododd TalkTalk bryder ynghylch tryloywder ac atebolrwydd ynghylch ymrwymiadau adeiladu ychwanegol Openreach. Roedd City Fibre o blaid yr Adolygiad a rheoliadau rheoli prisiau ffeibr llawn a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau nad yw rheoleiddio prisiau yn tanseilio cymhellion buddsoddwyr ffeibr. Nododd FCS bryder ynghylch y cynnyrch ffeibr cyfanwerthol newydd, gan awgrymu y gallen nhw newid y model defnydd cyfanwerthol, gan atal ailwerthwyr rhag prynu gwasanaethau cyfanwerthol perthnasol yn uniongyrchol. Roedd FCS o blaid datblygiadau API Openreach ond yn awgrymu bod angen i ddarparwyr rhwydwaith eraill ddarparu mynediad cyfanwerthol hefyd.

### Ein hymateb

A1.34 Buom yn ymgynghori'n helaeth ar yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol yn ystod 2020, ac fe wnaethom gyhoeddi ein Datganiad terfynol ar 18 Mawrth 2021.[4]

## Materion eraill sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith

A1.35 Gofynnodd BT am ragor o eglurder ynghylch ymrwymiad parhaus Ofcom i fuddsoddi mewn ffeibr, cynlluniau i ymateb i ystyriaethau prisio, a rheoleiddio mynediad posibl yn y dyfodol.

A1.36 Nododd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon fod angen rhagor o waith i wella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a galwodd am waith ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o Brosiect Stratum, Her Rhwydweithiau Ffeibr Llawn Lleol (LFFN), mentrau Cysylltedd Gigabit Gwledig a Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang i sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn effeithiol.

A1.37 Mae CityFibre yn cefnogi gwaith Ofcom ar gystadleuaeth seilwaith mewn rhwydweithiau ffeibr llawn, ond mae wedi pwysleisio pa mor bwysig yw rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y manteision. Mae City Fibre hefyd wedi sôn am yr angen i wella'n barhaus er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial Mynediad at Seilwaith Corfforol.

A1.38 Awgrymodd TalkTalk bod angen mwy o waith ar fudo i rwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits yn ogystal â gweithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth band eang cyffredinol (USO).

### Ein hymateb

A1.39 Mae ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth yn nodi rheolau sy'n rhoi cyfarwyddyd clir i'r diwydiant i ategu ein hamcan o hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Rydym yn disgwyl i Openreach barhau i weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod yr ateb Mynediad Seilwaith Ffisegol yn ategu'r amcan hwnnw.

A1.40 Rydym yn ystyried beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn deall galluoedd gwasanaethau band eang gwahanol, yn enwedig rhwydweithiau band eang sy'n gallu delio â gigabits, er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r farchnad yn effeithiol. Rydym yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Ddefnyddio Gigabit (GigaTAG), a gynullwyd gan Which? ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n archwilio'r dewisiadau ar gyfer y diwydiant a rheoleiddwyr, ac rydym yn bwriadu gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod gwybodaeth i ddefnyddwyr am fand eang yn glir ac yn gyson.

A1.41 Byddwn yn parhau â'n gwaith sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd. Mae eisoes yn ofynnol i BT godi ymwybyddiaeth o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a allai camau pellach

[4] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/2021-26-wholesale-fixed-telecoms-market-review

i godi ymwybyddiaeth o hyn a chynlluniau eraill sy'n cael arian cyhoeddus wella effeithiolrwydd y cynlluniau hyn, a'r ffordd orau o gyflawni hynny.

# Cael pawb wedi cysylltu

## Diffodd 2G/3G

A1.42 Nododd rhanddeiliaid, gan gynnwys Energy UK, bwysigrwydd ymgysylltu a chynllunio ar draws y sector yng nghyswllt cynlluniau i ffarwelio â 2G/3G. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod mesuryddion ynni clyfar yn achos defnydd pwysig i'w ystyried.

### Ein hymateb

A1.43 Mae Ofcom yn parhau i ystyried effaith diffodd seilwaith 2G a 3G yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol a Llywodraeth y DU ar y mater hwn, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws sectorau i ddeall ymhellach oblygiadau diffodd 2G a 3G.

## Diffodd y rhwydwaith ffôn switsio cyhoeddus a rhoi'r gorau i ddefnyddio copr

A1.44 Roedd amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, gweinyddiaethau datganoledig a chyrff eiriolaeth defnyddwyr wedi rhannu eu safbwyntiau ynghylch y syniad o roi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith copr a diffodd y rhwydwaith ffôn switsio cyhoeddus.

A1.45 Gofynnodd BT i Ofcom a'r Llywodraeth chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o baratoi ar gyfer y diffodd ac anogodd bwysigrwydd paratoi darparwyr cyfathrebiadau a defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu. Nododd Openreach bwysigrwydd amodau rheoleiddio priodol i hwyluso'r broses o ddiffodd ac awgrymodd y gallai signalau rheoleiddio i ddarparwyr cyfathrebiadau eu helpu i baratoi. Awgrymodd TalkTalk y dylai mwy o flaenoriaeth strategol gael ei rhoi i fudo i rwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits gyda mwy o ymyriadau polisi wedi'u cydlynu i hwyluso mudo.

A1.46 Roedd Openreach hefyd am annog Ofcom i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ganfod a mynd i'r afael â materion posibl, gan gynnwys: cyrff masnach, gwneuthurwyr dyfeisiau a grwpiau defnyddwyr. Nododd Llywodraeth Cymru bryderon ynghylch gallu defnyddwyr i gysylltu ag awdurdodau petai toriad yn y pŵer a gwasanaethau sy'n diogelu bywydau, gan annog Ofcom i sicrhau bod darparwyr rhwydwaith yn canfod ac yn datrys problemau.

### Ein hymateb

A1.47 Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd seilwaith teleffoni a band eang yn cael ei weddnewid yn sylweddol, a bydd cynnyrch newydd yn cael eu datblygu i gynorthwyo'r trawsnewid hwnnw. Bydd Ofcom yn parhau i helpu i hwyluso'r diwydiant, rhanddeiliaid eraill a defnyddwyr i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i IP yn mynd

rhagddi'n ddidrafferth, a bydd yn monitro cynnydd y mudo hwn. Fel y nodwyd uchod, byddwn hefyd yn parhau gyda'n gwaith i wella gwasanaethau yn yr ardaloedd anoddaf i'w cyrraedd, yn ystyried gwybodaeth i ddefnyddwyr ar rwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, a'u gwneud yn haws i newid ar draws rhwydweithiau.

A1.48 Mae ein penderfyniadau ar y rheolau ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnyddio copr wedi eu nodi yn ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol, a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth. Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch yr amgylchiadau lle gallai rhai adeiladau gael eu heithrio o'r diffiniad o gyfnewidfa gwibgyswllt wedi ei chwblhau, a fydd yn arwain at ddileu'r rheolaeth ar dâl am wasanaethau copr, wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg o gynnydd Openreach o ran cyflwyno ffeibr ar sail cyfnewid a'r cyfyngiadau ar gwblhau'r ddarpariaeth mewn ardal.

A1.49 Rydym yn parhau i weithio gyda'r cwmnïau band eang a ffôn sy'n arwain y newid hwn. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod cyn lleied â phosibl o darfu ar gwsmeriaid a'u bod yn cael eu diogelu rhag niwed. Mae rheolau Ofcom yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr ffonau gael diogelwch cyfatebol, waeth sut y caiff eu llinell sefydlog ei darparu. Mae gan ddarparwyr cyfathrebu ddyletswydd o dan ein Hamodau Cyffredinol i sicrhau bod eu cwsmeriaid yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau brys, yn enwedig os bydd toriad yn y pŵer. Rydyn ni'n cynnal sgyrsiau â Darparwyr Cyfathrebiadau am eu hatebion cydnerthedd, yn enwedig ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed, fel rhan o'n gwaith monitro ehangach o ran mudo i wasanaethau llais IP.

## Rhifo

A1.50 Awgrymodd TalkTalk fod Ofcom yn ystyried gwelliannau i'r broses mudo rhifau a nodi map ar gyfer asesu gwelliannau posibl i'r broses rheoli rhifau yn y dyfodol ochr yn ochr â chynigion symlach ar gyfer newid darparwr, a fydd, yn eu barn nhw, yn arwain at gynnydd mewn cludo rhifau. Awgrymodd Magrathea Telecommunications fod mwy o waith i Ofcom ei wneud mewn perthynas â rheoli rhifau a chludo rhifau yng nghyd-destun mudo i alwadau llais IP. Gofynnodd Cymdeithas y Darparwyr Gwasanaethau Teleffoni Rhyngrwyd (ITSPA) i Ofcom ddatblygu cynllun newydd ar gyfer diwygio'r gallu i gludo rhifau yn 2021/22.

A1.51 Awgrymodd TalkTalk hefyd y dylai Ofcom ystyried effeithiau a chostau cronfa ddata rhifau canolog, a allai fod yn ddrud i'w gweithredu ar gyfer darparwyr unigol.

### Ein hymateb

A1.52 Rydym yn parhau i ddisgwyl i gronfa ddata rhifau gyffredin gael ei hystyried fel rhan bwysig o'n rhaglen galwadau niwsans a sgam. Rydym hefyd yn disgwyl y gallai dull cyffredin ymhen amser ategu gwelliannau i reoli rhifau, newid a chludo rhifau.

A1.53 Rydym yn annog darparwyr i weithio gyda'i gilydd i geisio gwella'r broses o gludo rhifau wrth iddyn nhw roi'r broses newid newydd ar waith. Byddwn yn adolygu a oes angen i ni ymyrryd os gwelwn broblemau sylweddol o ran cludo rhifau

## Y Post a’r gwasanaeth post cyffredinol

A1.54 Fe wnaeth y Post Brenhinol sawl cais ynghylch yr adolygiad sydd ar y gweill o reoleiddio’r gwasanaeth post; bod yr adolygiad yn cael ei gwblhau mewn ffordd amserol gydag amserlen glir, adolygiad wedi ei dargedu gyda syniad cynnar o feysydd sydd y tu allan i’r cwmpas a mwy o hyblygrwydd rheoleiddio i gefnogi arloesi.

A1.55 Nododd Cyngor ar Bopeth yr Alban nifer o bryderon ynghylch y sector post, gan dynnu sylw at bryderon ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau, gan awgrymu y dylai gweithredwyr ar wahân i’r Post Brenhinol gael eu cynnwys mewn gofynion sylfaenol i leihau niwed i ddefnyddwyr a nodi materion fel oedi wrth ddanfon i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig a chodi tâl ychwanegol am barseli.

A1.56 Yn ogystal, fe wnaeth Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon a’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a’r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl annog Ofcom i ystyried mater codi tâl ychwanegol am barseli fel rhan o’n hadolygiad rheoleiddio. Roedden nhw, a Phwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, yn poeni y gallai codi tâl ychwanegol am barseli gael ei waethygu drwy weithredu Protocol Gogledd Iwerddon, a allai gael effeithiau sylweddol ar ddanfon parseli o Brydain i Ogledd Iwerddon. Roedden nhw’n annog Ofcom i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ar y mater hwn.

A1.57 Awgrymodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a’r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl hefyd y dylai’r sector post gael ‘cofrestr argaeledd’ i sicrhau bod gofynion mynediad ychwanegol unrhyw ddefnyddiwr post yn cael eu cofnodi.

A1.58 Gofynnodd Robert Archer i Ofcom adolygu a oes modd cael gwared ar fonopoli y Post Brenhinol ar gyfer rhai mathau o eitemau er budd effeithlonrwydd. Gofynnodd y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ofcom osod targedau effeithlonrwydd ar gyfer y Post Brenhinol a’i ddal i gyfrif o ran cyrraedd y targedau hyn, ystyried mecanweithiau rheoli prisiau i gyfyngu ar neu leihau codiadau prisiau post swmp y Post Brenhinol, ymchwilio i anghenion defnyddwyr post mawr a pharseli ac ystyried ehangu mynediad gorfodol at rwydwaith y gwasanaeth post cyffredinol.

### Ein hymateb

A1.59 Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi cais am fewnbwn ar reoleiddio gwasanaethau post, sy’n rhoi cyfle i randdeiliaid ymgysylltu ar faterion sy’n ymwneud â rheoleiddio’r Post Brenhinol. Edrychwn ymlaen at ragor o ymgysylltu ynghylch y materion hyn. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am feysydd gwaith fel rhan o’r adolygiad, a byddwn yn ystyried gofynion rheoleiddiol y Post Brenhinol, ochr yn ochr â gofynion rhanddeiliaid eraill, fel rhan o’r adolygiad.

A1.60 Byddwn yn parhau i graffu ar ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol fel rhan o’n rhaglen fonitro barhaus.

A1.61 Rydyn ni o'r farn bod cystadleuaeth mynediad ar gyfer llythyrau swmp, sy’n cael ei hwyluso gan waith rheoleiddio Ofcom ar fynediad at rwydwaith y Post Brenhinol, wedi arwain at fanteision i weithredwyr mynediad, y Post Brenhinol a chwsmeriaid (y rhai sy’n anfon ac yn

derbyn post). Byddwn yn ystyried ymhellach sut i gefnogi cystadleuaeth mynediad yn ein hadolygiad arfaethedig o reoleiddio'r post.

A1.62 Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein hasesiad ynghylch a yw gofynion sylfaenol y gwasanaeth post cyffredinol yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr. Mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn awr yw penderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i’r gofynion sylfaenol, ac yn cyflwyno unrhyw gynigion gerbron y Senedd. Yn y cyfamser, roeddem wedi cyhoeddi dadansoddiad o amrywiadau daearyddol ar gyfer gwasanaethau parseli swmp fel rhan o’n diweddariad monitro blynyddol ar bost ym mis Tachwedd 2020, er mwyn cyfrannu at y ddadl ehangach ar godi tâl ychwanegol am barseli.

A1.63 Mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, cwmnïau post a grwpiau defnyddwyr i ddeall y goblygiadau ar gyfer y farchnad bost.

A1.64 Nodwn sylwadau’r ymatebydd am y gofrestr agored i niwed ar gyfer y post. Er nad ydym yn mynnu bod gweithredwyr post yn cadw cofrestr o’r fath (ac mewn sectorau eraill, fel telegyfathrebiadau, rydym wedi cyhoeddi canllawiau ac yn disgwyl i ddarparwyr telegyfathrebiadau fonitro hyn), rydym yn disgwyl i’n holl randdeiliaid ar draws pob sector ystyried anghenion defnyddwyr agored i niwed, a byddwn yn ystyried hyn ymhellach yn ein hadolygiad yn y dyfodol.

A1.65 Fel rhan o’n gwaith ar anghenion rhesymol defnyddwyr post, fe wnaethom gynnal cyfres o gyfweliadau a holiaduron gyda swmp-bostwyr a defnyddwyr post ar raddfa fawr i wrando ar eu barn a deall eu hanghenion. Nid yw defnyddwyr mawr yn defnyddio cynnyrch gwasanaeth cyffredinol ac felly nid ydyn nhw’n ganolog i’r cwestiynau ynghylch cwmpas gwasanaeth cyffredinol a ystyriwyd yn yr adolygiad o anghenion rhesymol defnyddwyr post. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau post ar raddfa fawr ac yn ystyried eu safbwyntiau fel rhan o’n hadolygiad arfaethedig o reoleiddio post lle bo hynny’n briodol.

## Ffeil cyfeiriadau codau post

A1.66 Mae nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y Sefydliad Data Agored a’r Ganolfan Data Cyhoeddus, wedi gofyn i Ofcom adolygu data Cyfeiriadau’r Deyrnas Unedig sy’n cael ei gadw gan y Post Brenhinol, sef y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF). Mae rhanddeiliaid wedi gofyn i Ofcom adolygu pris y Ffeil a’i strwythurau llywodraethu. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd data cyfeiriadau cadarn a chyfredol i elusennau, busnesau ac academyddion, ac aeth nifer ymlaen i ofyn am i’r set ddata hon gael ei chynnwys mewn cronfa ddata ffynhonnell agored sydd ar gael i’r cyhoedd. Nododd nifer o ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch model llywodraethu’r Gronfa, gan dynnu sylw at ddiffyg eglurder ynghylch pwy sy’n gyfrifol am Ofcom a’r Comisiwn Geo-ofodol.

A1.67 Derbyniodd Ofcom dros 50 o ymatebion ar y mater hwn, gan gynnwys yr unigolion a’r sefydliadau a ganlyn; Andy Turner, Christopher Billows, David Clifford, Y Ganolfan Iechyd Agored, Christopher Billows, Adrian Sevitz, Alex Bickerton, Alex Farley, Andy Parkhouse,

Chloe Rutland, Prifysgol Cranfield, Simon Ellis, Stephen Lovelady, Tam Watson, Tom Neill, NHSX, Global Witness ac Elin Barrett.

## Ein hymateb

A1.68 Mae'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn rhestr o dros 30 miliwn o fannau dosbarthu y mae eitemau post yn cael eu danfon iddyn nhw yn y Deyrnas Unedig. Y Post Brenhinol sy’n berchen arno, ac mae’n rhaid iddo ei gynnal a sicrhau ei fod ar gael i unrhyw un sy’n dymuno ei ddefnyddio ar delerau rhesymol (sy’n gallu cynnwys talu ffi).[5]

A1.69 Mae’r Post Brenhinol yn cyflawni’r ddyletswydd hon drwy sicrhau bod PAF ar gael drwy drefn drwyddedu lle mae defnyddwyr yn talu ffi’r drwydded er mwyn defnyddio data PAF, er bod rhai defnyddwyr, fel sefydliadau elusennol llai, wedi eu heithrio rhag talu ffioedd.[6]

A1.70 Y tro diwethaf i ni gynnal adolygiad o fframwaith prisio PAF oedd yn 2013, pan wnaethom ystyried y meysydd allweddol a ganlyn: adennill costau PAF, symleiddio’r drefn drwyddedu, a’r telerau ar gyfer darparu PAF. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ar fesuriadau ansawdd ar gyfer PAF. Daethom i’r casgliad, ymysg pethau eraill, fod pris trwyddedau PAF ar y pryd yn rhesymol o ran ei fod yn caniatáu i’r Post Brenhinol adennill ei gostau ac nad yw’n arwain at ormod o elw.[7]

A1.71 Roedd ein penderfyniad yn ystyried ein prif ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu (gan gynnwys yr angen i’r ddarpariaeth honno fod yn gynaliadwy yn ariannol), yn ogystal â’n hegwyddorion prisio ac adennill costau.[8] Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau sy’n amlinellu rhai o’r ffactorau y gallem eu hystyried wrth asesu a yw’r telerau y darperir PAF ar eu cyfer i ddefnyddwyr yn rhesymol, gan ddweud y dylai’r Post Brenhinol ddatblygu mesurau ansawdd cadarn sy’n ystyrlon ac yn adeiladol i ddefnyddwyr PAF. Nid ydym wedi derbyn cwynion am y prisiau na thelerau mynediad eraill at PAF yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

A1.72 Yn gynharach y mis hwn, fe wnaethom gyhoeddi cais am fewnbwn ar reoleiddio gwasanaethau post, sy’n rhoi cyfle i randdeiliaid ymgysylltu ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio post yn y dyfodol.[9] Os oes gan ymatebwyr bryderon ynghylch a yw’r telerau mae PAF ar gael arnyn nhw’n rhesymol neu’n bryderon trwyddedu tebyg sy’n dod o fewn cwmpas ein pwerau rheoleiddio, fe gallan nhw ymateb i’n cais am fewnbwn, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fydd ar gael.

A1.73 Yn olaf, rydym yn nodi bod pwerau Ofcom mewn perthynas â’r PAF yn gyfyngedig. Er enghraifft, byddai’r cwestiwn ynghylch a ddylid gwneud PAF yn set ddata agored sydd ar

---

[5] Adran 116(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000.
[6] Yn benodol, mudiadau sydd â llai na £10 miliwn o incwm y flwyddyn sy’n elusennau cofrestredig neu’n gwmnïau buddiannau cymunedol. Gall microfusnesau annibynnol (0-9 o weithwyr a/neu drosiant o £2 miliwn) hefyd gael mynediad am ddim at PAF am flwyddyn, a gall unigolion chwilio am 50 o gyfeiriadau am ddim bob dydd ar wefan y Post Brenhinol.
[7] Ofcom, Gorffennaf 2013. Adolygu Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (Datganiad). https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/62628/statementpaf.pdf
[8] Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Oftel ac maen nhw wedi cael eu defnyddio gan Ofcom i ddadansoddi materion prisio amrywiol. Mae paragraff 5.2 y datganiad Adolygiad Cyfeiriadau Cod Post uchod yn nodi’r egwyddorion hyn yn llawn.
[9] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/postal-regulation-review

gael yn rhwydd i bawb neu i rai sectorau penodol yng ngoleuni ystyriaethau polisi cyhoeddus ehangach, yn fater i Lywodraeth y DU.

## Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO)

A1.74 Roedd rhanddeiliaid yn croesawu ffocws parhaus Ofcom ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang, gyda BT a Llywodraeth Cymru yn mynegi eu pryder na fydd y Rhwymedigaeth yn datrys heriau cysylltedd gwledig ar eu pen eu hunain.

A1.75 Dadleuodd Llywodraeth Cymru nad yw'r cap ar gostau adeiladau yn adlewyrchu realiti'r costau sy'n gysylltiedig â darparu band eang cynaliadwy i ardaloedd mwyaf gwledig Cymru, ac awgrymodd fod Ofcom yn ymrwymo i adolygiad ac addasiad blynyddol o'r Rhwymedigaeth ac yn craffu ar weithrediadau darparwyr y Rhwymedigaeth i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr.

A1.76 Beirniadodd Paul Wheelhouse, Aelod o Senedd yr Alban a Gweinidog yr Alban dros Ynni, Cysylltedd a'r Ynysoedd, effeithiolrwydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn yr Alban, a gofynnodd i Ofcom ymchwilio i ddull gweithredu BT o ran rhannu costau ac unrhyw effaith a gaiff ar gynlluniau defnyddio band eang sy'n cael eu rhedeg gan lywodraethau eraill. Awgrymodd Andrew Croome y dylid gweithredu model rhannu costau i leihau costau i unigolion. Anogodd Cyngor ar Bopeth yr Alban Ofcom i ymchwilio i sut mae sicrhau cysylltiadau fforddiadwy o ansawdd uchel.

A1.77 Mynegodd Giuseppe Solazzo bryderon ynghylch y ffaith bod cysylltiadau 4G yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n darparu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang, gan awgrymu na ddylid eu cydnabod ac y dylai fod yn ofynnol i BT brofi y bydd 4G yn cyflenwi cyflymderau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i eiddo heb i ddefnyddwyr brofi eu cyflymder gyda hwb 4G. Cododd Jeff Jones bryderon ynghylch effeithiolrwydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol mewn ardaloedd heb 4G, a nododd yr heriau o gymell buddsoddiad mewn cysylltedd ar gyfer ardaloedd gwledig. Awgrymodd Giuseppe Solazzo hefyd y dylid diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i gynnwys darpariaethau ar gyfer sefyllfaoedd lle mae nifer o aelwydydd yn adrodd am gyflymderau araf mewn un ardal, gan roi uwchraddiad yn y cabinet lleol.

### Ein hymateb

A1.78 Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn caniatáu i unigolion wneud cais am gysylltiad band eang teilwng os nad oes un ar gael. Mater i Lywodraeth y DU yw pennu'r Rhwymedigaeth, gan gynnwys y diffiniad o fand eang teilwng a lefel y trothwy cost y dylid darparu cysylltiadau iddo heb godi tâl ar gwsmeriaid. Rydym yn ei weithredu drwy amodau a osodir ar ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol ac yn monitro effeithiolrwydd y Rhwymedigaeth, gan weithio gyda'r darparwyr dynodedig, BT a KCOM, yn barhaus.

A1.79 Bydd rhai adeiladau'n cael dyfynbrisiau uchel o dan y Rhwymedigaeth oherwydd eu natur anghysbell a chost adeiladu rhwydweithiau yn y lleoliadau hyn. Gan hynny, rydym yn cydnabod nad yw'r Rhwymedigaeth band eang yn debygol o ddarparu cysylltedd i'r

adeiladau anoddaf eu cyrraedd, a byddwn yn parhau â'n gwaith i ystyried sut gellir gwella mynediad at wasanaethau band eang ar gyfer yr adeiladau hyn.

A1.80 Yn unol ag amodau ein Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, dylai costau adeiladu cysylltiadau gael eu rhannu rhwng yr adeiladau hynny a allai ddefnyddio'r un seilwaith sy'n gymwys ar gyfer y Rhwymedigaeth. Rydyn ni'n poeni na fydd BT yn cydymffurfio â'r amodau rheoleiddio'n gywir, o bosibl, pan fydd yn asesu costau ychwanegol ar gyfer cysylltiad penodol. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom agor ymchwiliad i'r mater hwn ac rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad ym mis Mawrth 2021 a byddwn wedyn yn ystyried y camau nesaf fel bo'n briodol.

A1.81 Mae'r Rhwymedigaeth yn mynnu y dylai gwasanaethau fod yn fforddiadwy. Wrth bennu amodau ar BT (a KCOM yn ardal Hull) daethom i'r casgliad, ar sail gwasanaethau masnachol yn y farchnad, na ddylai gwasanaeth band eang teilwng fforddiadwy gostio mwy na £45 y mis (yn 2018), sy'n codi'n flynyddol yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau, ni waeth pa dechnoleg a ddefnyddir i'w darparu. Nid yw hyn yn atal cynigion masnachol rhag cael eu prisio'n uwch na hyn, ond mae'n golygu y byddai cwsmeriaid yn gymwys i ofyn am gysylltiad o dan y Rhwymedigaeth.

A1.82 Mae'r Rhwymedigaeth yn dechnolegol niwtral, felly pan fydd gwasanaeth di-wifr sefydlog sy'n cael ei ddarparu drwy rwydwaith 4G BT (y gwasanaeth 4G) neu wasanaeth di-wifr sefydlog arall yn gallu darparu band eang boddhaol, nid yw'r adeilad yn gymwys ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang. Rydym wedi gwneud gwaith i ddilysu galluoedd y gwasanaeth 4GEE o ran bodloni manyleb y gwasanaeth cyffredinol band eang, ac rydym yn gwneud gwaith tebyg i ddilysu gwasanaethau mynediad di-wifr sefydlog eraill. Mae'n bosibl y gellid darparu cysylltedd di-wifr sefydlog hyd yn oed pan nad oes gwasanaeth symudol da ar gael bob amser (er enghraifft, drwy ddefnyddio antena allanol) ac mae'n bosibl y bydd hyn yn galw am brofion i bennu cyflymder i gwsmeriaid penodol. Pan na fydd gwasanaeth mynediad di-wifr sefydlog yn gallu darparu band eang teilwng, bydd BT yn symud y cwsmer yn ei flaen drwy'r broses Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

A1.83 Er mai mater i'r Llywodraeth yw pennu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, rydym yn gwneud gwaith i asesu anghenion cwsmeriaid a sut gallai'r anghenion hyn esblygu yn y dyfodol.

## Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir

A1.84 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofcom nodi manylion ei rôl o ran sicrhau bod y Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir yn cyflawni ei gynllun i ddileu mannau di-gyswllt ledled Cymru ac yn rhannu data yn fwy tryloyw. Pwysleisiodd Which? bwysigrwydd monitro cynnydd y Rhwydwaith, ac awgrymodd y gallai fod cyfle i Ofcom ystyried a fyddai modd defnyddio dulliau tebyg i gefnogi'r gwaith o gyflwyno technolegau symudol newydd. Gofynnodd Paul Wheelhouse ASA, Gweinidog yr Alban dros Ynni, Cysylltedd a'r Ynysoedd, i Ofcom chwarae rhan mewn rhannu gwybodaeth ynghylch defnyddio Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir.

### Ein hymateb

A1.85 Swyddogaeth graidd Ofcom wrth weithredu’r rhaglen Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir fydd cadarnhau bod gweithredwyr wedi cydymffurfio ag ymrwymiadau eu trwydded, ac rydym yn cymryd ein rôl o ran dal gweithredwyr i gyfrif yn y cyswllt hwn o ddifrif. Mae’r broses hon wedi ei nodi ym methodoleg cydymffurfio’r Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir, sy’n adlewyrchu’r trafodaethau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r gweithredwyr rhwydweithiau. Mae’r cwmnïau symudol wedi cynhyrchu data masnachol gyfrinachol sydd wedi cael ei gyflwyno i Ofcom mewn perthynas â’r Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir, ac nid yw Ofcom yn gallu darparu rhagor o wybodaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gyflwyno’r achos dros sicrhau rhagor o wybodaeth i’r gweithredwyr, sydd yn y sefyllfa orau i egluro manylion eu cynlluniau, a byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd gweithredwyr fel rhan o’r gwaith i’w dal i gyfrif am eu hymrwymiadau.

A1.86 Bydd Ofcom yn parhau i fonitro cynnydd y Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir ac yn adrodd ar gynnydd drwy ein cyhoeddiad ‘Cysylltu’r Gwledydd’. Byddwn yn ystyried gwersi o broses y Rhwydwaith lle bo hynny’n berthnasol mewn cynlluniau polisi yn y dyfodol.

## Cysylltedd ar gyfer busnesau

A1.87 Cododd FCS bwysigrwydd band eang lled band uchel mewn meysydd sy’n canolbwyntio ar fusnes, fel parciau busnes, a chludadwyedd rhifau a chydymffurfiaeth mewn gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd.

### Ein hymateb

A1.88 Roedd ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol, a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth, yn nodi rheolau a oedd yn ategu ein hamcan o hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau mewn meysydd busnes a phreswyl.

A1.89 Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd seilwaith teleffoni a band eang yn cael ei weddnewid yn sylweddol, a bydd cynnyrch newydd yn cael eu datblygu i gynorthwyo’r trawsnewid hwnnw. Bydd Ofcom yn parhau i helpu i hwyluso’r diwydiant, rhanddeiliaid eraill a defnyddwyr i weithio gyda’i gilydd i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i IP yn mynd rhagddi’n ddidrafferth, a bydd yn monitro cynnydd y mudo hwn. Fel y nodwyd uchod o dan ‘rhifo’, byddwn yn adolygu a oes angen i ni ymyrryd os gwelwn broblemau sylweddol o ran cludo rhifau.

# Tegwch i gwsmeriaid

## Hysbysiadau diwedd contract

A1.90 Anogodd Which? ac uSwitch Ofcom i adolygu effeithiolrwydd hysbysiadau diwedd contract. Cyfeiriodd uSwitch at ei ymchwil ei hunan i’r Cod Cyfathrebiadau Electronig ac anogodd Ofcom i ddiffinio meini prawf llwyddiant ar gyfer hysbysiadau diwedd contract a monitro ymddygiad darparwyr yn agos. Awgrymodd Which? y byddai treialu a phrofi

rhwymedïau'n sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys, a bod y rheolau hyn yn cael yr effaith a fwriadwyd.

### Ein hymateb

A1.91 Rydym yn cytuno â Which? bod treialu a phrofi atebion yn bwysig. Rydym yn adolygu sut mae darparwyr wedi gweithredu hysbysiadau diwedd contract, a'u heffaith ar ymddygiad cwsmeriaid. Rydym wrthi'n casglu data'n uniongyrchol gan ddarparwyr a fydd yn rhoi cipolwg ar ba mor effeithiol mae'r rheolau hyn wedi bod hyd yma. Byddwn hefyd yn adolygu effaith yr ymrwymiadau prisio gwirfoddol a wneir gan nifer o ddarparwyr symudol a band eang fel rhan o'n pecyn o fesurau i sicrhau tegwch i gwsmeriaid.

## Cyfathrebu agored

A1.92 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Sefydliad Data Agored, yn cefnogi cynigion Ofcom ar Gyfathrebu Agored. Gofynnodd BT am ragor o fanylion am y camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn. Holodd TalkTalk a oedd Ofcom wedi cynhyrchu digon o dystiolaeth yn tynnu sylw at yr angen am gyfathrebu agored ac yn gofyn i Ofcom ystyried y costau gweithredu i ddarparwyr yng nghyd-destun mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr.

A1.93 Tynnodd Openreach sylw at bwysigrwydd cysoni'r diwydiant o ran math a natur y data a fydd yn cael ei rannu yn ogystal â'r broses ar gyfer rhannu, gan ofyn am ragor o fanylion ynghylch sut bydd gwybodaeth yn cael ei chanfod a rôl gweithredwyr cyfanwerthol. Awgrymodd Openreach hefyd y byddai gweithgor diwydiant yn briodol i bennu a safoni metrigau.

A1.94 Nododd yr ODI a Which? rybudd ynghylch y risgiau posibl a achosir drwy rannu data personol, yn enwedig yng nghyswllt data sensitif neu ar gyfer defnyddwyr agored i niwed a'r rhai sydd â chyfrifon sy'n cael eu rhannu.

### Ein hymateb

A1.95 Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad pellach ar Gyfathrebu Agored yn ystod chwarter cyntaf 2021/22, gan nodi'r hyn rydym wedi ei ddysgu o'r ymgynghoriad a sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen.

A1.96 Wrth ystyried y camau nesaf ar gyfer ein gwaith ar Gyfathrebu Agored, byddwn yn ystyried effaith ymyriadau eraill ar y diwydiant sy'n helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yn cael eu gwasanaethu'n well gan y farchnad gyfathrebu. Dylai cwmpas unrhyw fenter Cyfathrebu Agored fod yn gymesur â'r manteision posibl, a byddwn yn ystyried y costau posibl i'r diwydiant o ddarparu data y byddai o fudd i gwsmeriaid ei rannu. Fodd bynnag, mater i'r Llywodraeth yw penderfynu a ddylid rhoi'r pwerau angenrheidiol i Ofcom gyflwyno deddfwriaeth Cyfathrebu Agored, ac os felly, ar ba sail.

A1.97 Rydym yn cytuno y byddai'n bwysig i unrhyw fenter Cyfathrebu Agored nodi'n glir y mathau o ddata sydd i'w rhannu ac i ddata fod ar gael ar draws y diwydiant ar ffurf safonol.

A1.98 Rydym yn cytuno y dylai diogelwch fod ar flaen y gad o ran dylunio unrhyw fenter Cyfathrebu Agored, gan gynnwys prosesau awdurdodi a dilysu diogel. Rydym yn gwybod y

bydd gan gwsmeriaid safbwyntiau gwahanol ynghylch pa ddata maen nhw'n gyfforddus yn ei rannu â thrydydd partïon. Gan hynny, byddai angen i ddefnyddwyr unrhyw gynllun Cyfathrebu Agored gael gwybodaeth glir a chyson gan drydydd partïon ynghylch sut maen nhw'n defnyddio data cwsmeriaid ac am unrhyw risg.

## Diogelu defnyddwyr os bydd darparwr yn methu'n ariannol

A1.99 Nododd Openreach ei broses 'Supplier of Last Resort' ar gyfer Rhentu Llinell Cyfanwerthol, sy'n ceisio sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cyfle i wneud trefniadau eraill ar gyfer gwasanaethau llais pan fydd eu cyflenwr yn methu, a mynegodd ei barodrwydd i gefnogi gwaith ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Pwysleisiodd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu y dylai unrhyw gynllun fod yn deg i bob chwaraewr.

### Ein hymateb

A1.100 Credwn fod asesu a oes angen cynllun i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu os bydd darparwr yn methu yn ariannol yn parhau i fod yn bwysig. Fodd bynnag, fel rhan o flaenoriaethu ein hadnoddau, rydym bellach wedi penderfynu gohirio'r gwaith hwn am y flwyddyn a ddaw ac felly rydym wedi ei dynnu oddi ar ein rhestr o brosiectau arfaethedig. Pan fyddwn yn ailedrych ar y mater hwn byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n agos â'r diwydiant wrth edrych ar ein gwaith, ac wrth adolygu dyluniad unrhyw gynllun arfaethedig, i sicrhau ei fod yn deg, yn ymarferol ac yn gymesur.

## Newid Symlach

A1.101 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cynigion Newid Symlach Ofcom, ac fe wnaeth y FCS annog Ofcom i gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau yn y diwydiant i sefydlu llwyfan, proses a hwb newid newydd. Nododd Openreach y gofyniad i ddatblygu hwb diwydiant i hwyluso newid, ond dadleuodd na ddylai'r hwb gael ei ddefnyddio ar y lefel mynediad. Roedd Openreach hefyd yn dadlau dros ddull gweithredu fesul cam, gan gyfeirio at y risg bosibl o darfu ar y farchnad. Roedd City Fibre hefyd yn gefnogol, a thynnodd sylw at y ffaith bod newid syml yn rhan hanfodol o'r gwaith o gynorthwyo'r broses o symud i wasanaethau ffeibr llawn newydd.

A1.102 Awgrymodd BT y dylid cynnwys Teledu drwy Dalu yn y cynigion newid symlach, a gofynnodd TalkTalk i Ofcom barhau i geisio dileu ffactorau rhwystro fel contractau teledu sy'n dod i ben ar adegau gwahanol i gontractau band eang, gan ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr symud heb dreulio amser y tu allan i gontract am o leiaf un cynnyrch.

A1.103 Mynegodd TalkTalk bryder ynghylch y dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2022, ac anogodd Ofcom i nodi'r dull gweithredu cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu'r fframwaith llywodraethu ar yr un pryd. Awgrymodd uSwitch y dylai Ofcom gyflymu'r amserlenni i roi'r broses newid newydd ar waith.

A1.104 Nododd Gwasanaethau'r Ombwdsmon fod cwynion y mae wedi eu cael gan ddefnyddwyr yn awgrymu bod newid yn dal yn gallu bod yn broses ddryslyd, a thynnodd sylw at bwysigrwydd negeseuon a chymorth cyson ar draws y diwydiant. Awgrymodd Harry Green

mai un rhwystr i newid yw offer yn y cartref, gan gynnig y dylai Ofcom wahanu contractau ar gyfer offer gosod a chwsmeriaid a rhoi'r hawl statudol i gwsmeriaid ddarparu eu hoffer eu hunain. Cynigiodd Harry Green hefyd y dylid terfynu contractau ar gyfer gwasanaethau band eang ar fyr rybudd, gyda ffioedd terfynu cynnar yn berthnasol i osod ac offer yn lle hynny.

A1.105 Tynnodd Harry Green sylw at eSims fel rhwystr posibl i newid symlach, gan nodi nad yw llawer o weithredwyr rhwydwaith rhithwir symudol yn cefnogi eSims a nodweddion cysylltiedig ar hyn o bryd, gan annog Ofcom i ymchwilio i a allai Apple atal gweithredwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol rhag cefnogi eSims.

**Ein hymateb**

A1.106 Yn ddiweddar, fe wnaethom gadarnhau nifer o newidiadau y byddwn yn eu gwneud i reolau ar gontractau, a oedd yn ofynnol er mwyn rhoi newidiadau i reolau Ewropeaidd ar waith. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau ar gontractau heb fod yn gydffiniol sy'n nodi amgylchiadau lle rydyn ni o'r farn y gallai rhai fod yn gymhelliant i gwsmeriaid newid darparwr. Mae rheolau ar gontractau, gan gynnwys yn erbyn telerau annheg, hefyd yn cael eu rhagnodi'n fwy eang fel rhan o gyfraith gyffredinol contractau a defnyddwyr, y mae gan Ofcom rôl i'w gorfodi. Byddwn yn parhau i fonitro cwynion am faterion sy'n ymwneud â chontractau, a phan fyddwn yn canfod materion sydd angen sylw, byddwn yn cymryd camau fel bo'n briodol.

A1.107 Mewn perthynas â'n cynigion Newid Syml, byddwn yn cwrdd â darparwyr cyfathrebu i drafod cynlluniau ar gyfer y cyfnod gweithredu, ac ynghylch sefydlu fforwm i'r diwydiant i gefnogi gweithredu.

A1.108 Ar hyn o bryd, ffocws y cynigion newid ar gyfer gwasanaethau sefydlog yw proses i gwsmeriaid preswyl newid eu gwasanaethau llinell dir a band eang. Nid ydym yn bwriadu ymestyn hyn i gynnwys Teledu drwy Dalu ar hyn o bryd.

A1.109 Mae angen i ddarparwyr gydymffurfio â'r rheolau newid newydd erbyn mis Rhagfyr 2022, sef 24 mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r Amodau Cyffredinol diwygiedig. Wrth bennu'r dyddiad gweithredu hwn, roeddem wedi ystyried pryderon darparwyr ynghylch y newidiadau sylweddol i systemau a phrosesau sydd eu hangen i weithredu'r gofynion, yn enwedig mewn perthynas â datblygu proses newid newydd ar gyfer gwasanaethau llais a band eang.

A1.110 Mae gallu cwsmeriaid i newid yn rhwydd a manteisio ar fargeinion da yn flaenoriaeth bwysig. Lle ceir tystiolaeth bod pethau'n rhwystro hyn rhag digwydd, byddwn yn ymchwilio ac yn gweithredu yn ôl yr angen.

## Defnyddwyr bregus a hygyrchedd

A1.111 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth yr Alban, yn croesawu ffocws Ofcom ar ddiogelu cwsmeriaid agored i niwed. Tynnodd Openreach sylw at eu cynlluniau i symleiddio'r broses ar gyfer gwneud cais am atgyweiriadau, ac awgrymodd BT fod angen amser ar ddarparwyr i weithredu argymhellion Ofcom ar arferion gorau cyn bod modd

iddyn nhw wella'r broses o gofnodi data. Anogodd y Joint Radio Company Ofcom i edrych ar ddulliau gweithredu rheoleiddwyr eraill fel Ofgem ac Ofwat mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed.

A1.112 Nododd y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Pobl Fyddar fod oedi wrth weithredu nodweddion hygyrchedd drwy'r newid i gyfathrebu o bell a achosir gan y pandemig. Roedd hefyd yn cwestiynu rôl Ofcom o ran sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus fel meddygon teulu yn gorfod caffael llwyfannau cyfathrebu sydd â nodweddion hygyrchedd eang, ac yn defnyddio'r nodweddion hynny.

A1.113 Awgrymodd y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Pobl Fyddar nad yw'r gwasanaethau cyfnewid ffôn presennol yn ddigonol a'u bod yn cael eu hargymell ar gyfer gweithredu gwasanaeth sy'n cynnig trawsgrifiadau ar gyflymder tebyg i'r hyn a ddywedir ar lafar. Nododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu bwysigrwydd hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiant drwy ddylunio wrth i dechnolegau newydd gael eu datblygu.

A1.114 Nododd Harry Green fod nifer o rwydweithiau yn gosod cyfyngiadau byr ar uchafswm nifer y caniadau ar alwadau ffôn cyn i wasanaethau rhwydwaith fel negeseuon llais a dargyfeirio ddigwydd. Gallai'r cyfyngiad byr hwn achosi problemau i'r rhai sy'n llai symudol ac felly nad ydyn nhw'n gallu ateb galwadau yn yr amser cyfyngedig a ganiateir. Awgrymodd Harry y dylai Ofcom weithredu gofyniad i rwydweithiau gynyddu'r oedi mwyaf posibl y gellir ei ffurfweddu i ddau funud.

### Ein hymateb

A1.115 Mae BT yn datblygu ac yn profi ap Relay UK ar sail dyluniad cyffredin ar draws y gwahanol lwyfannau, ac mae'n cael ei gefnogi ar Android 6, iOS 10 a fersiynau meddalwedd symudol diweddarach. Er bod y systemau gweithredu hyn wedi cael eu rhyddhau yn 2015 a 2016 yn y drefn honno, mae llawer o ffonau hŷn yn dal yn gallu uwchraddio i'r fersiynau meddalwedd hyn, neu fersiynau meddalwedd diweddarach. Weithiau mae gwerthwyr y feddalwedd mae BT yn dibynnu arnyn nhw i'w datblygu a'i chyhoeddi (Apple, Google, Microsoft) yn dewis rhoi'r gorau i gefnogi fersiynau hŷn o'u systemau gweithredu, ond nod BT yw gallu rhedeg yr ap ar y fersiwn cynharaf a ganiateir cyn belled ag y bo modd, gan gynnal cydnawsedd ar draws dyfeisiau newydd a diweddariadau systemau gweithredu wrth iddyn nhw gael eu cyflwyno. Mae BT hefyd yn olrhain mathau o ddyfeisiau fel data generig, sy'n rhoi syniad da o'r dyfeisiau mwyaf poblogaidd mae defnyddwyr y Deyrnas Unedig yn eu defnyddio i gael mynediad at y gwasanaeth, gan helpu'r gwaith profi a'r gwaith datblygu. Nid oedd adborth cwsmeriaid o arolwg bodlonrwydd Relay UK 2020 yn tynnu sylw at unrhyw broblem cydnawsedd o ran Relay UK a dyfeisiau hŷn, ac nid yw cysylltiadau â'r Ddesg Gymorth (gan gynnwys drwy ffurflen adborth yr ap) wedi mynegi unrhyw bryder sylweddol am hyn hyd yma. Mae BT wedi dweud wrth Ofcom y byddai'n fodlon ymchwilio i unrhyw achos lle mae aelodau NADP wedi cael unrhyw broblem wrth ddefnyddio ap Relay UK, boed hynny'n ymwneud â'r system weithredu, cydnawsedd, neu unrhyw broblem arall o ran defnyddioldeb.

A1.116 Yn olaf, cododd NADP bwyntiau am feddalwedd fideo gynadledda, caffael cyhoeddus a diffyg ymwybyddiaeth meddygon teulu o fyddardod. Nid yw'r rhain yn faterion lle mae gan Ofcom bwerau na dyletswyddau rheoleiddio.

A1.117 Bydd gwella cysondeb cofnodi data ar draws y diwydiant yn rhan bwysig o'n gwaith i ddiogelu cwsmeriaid agored i niwed yn 2021/22. Rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr barhau i adolygu eu perfformiad eu hunain o ran y canllaw bregusrwydd a chymryd camau i wella'r cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid agored i niwed pan fo angen.

## Fforddiadwyedd

A1.118 Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Carnegie UK, yn cefnogi gwaith Ofcom i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu'n fforddiadwy, ac roedden nhw'n annog Ofcom i edrych ar ddatblygiadau arloesol yn y farchnad a allai leihau cost mynediad digidol a gwella diogelwch i'r rhai sydd ar incwm isel.

A1.119 Roedd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon yn gefnogol i waith Ofcom a Llywodraethau i wella cyflymder a darpariaeth band eang, ond nododd y gallai fod heriau o ran fforddiadwyedd ar gyfer gwasanaethau lled band uwch. Awgrymodd BT y dylai Ofcom ystyried fforddiadwyedd gwasanaethau Teledu drwy Dalu. Cynigiodd Gwasanaethau'r Ombwdsmon rannu ei brofiad ynghylch heriau fforddiadwyedd gydag Ofcom, a thynnodd sylw'n benodol at y cyfle i ailasesu mesurau diogelu ar gyfer busnesau bach.

A1.120 Yn ogystal, gofynnodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK i Ofcom adolygu ei rôl a'i sefyllfa o ran darparu 'rhwyd ddiogelwch ddigidol' i ddiogelu mynediad y cyhoedd at wasanaethau digidol drwy lyfrgelloedd cyhoeddus, er enghraifft.

A1.121 Roedd Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu darparu tariffau cymdeithasol gwirfoddol gan rai darparwyr. Awgrymodd Cyngor ar Bopeth yr Alban y dylai'r rhain fod ar gael gan amrywiaeth ehangach o ddarparwyr er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr ac y dylid ehangu'r meini prawf mynediad.

### Ein hymateb

A1.122 Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu fforddiadwy, fel band eang sefydlog a symudol, yn flaenoriaeth i Ofcom. Gan hynny, rydym wedi annog darparwyr yn gryf i osod tariffau fforddiadwy wedi eu targedu, ac i'w hyrwyddo i gwsmeriaid a allai fod yn gymwys. Rydym wrthi'n asesu darpariaeth tariffau o'r fath, ac, os byddwn yn sefydlu unrhyw bryderon ynghylch fforddiadwyedd na fyddai'r tariffau presennol a chymorth gan ddarparwyr yn rhoi sylw iddyn nhw, byddwn yn nodi cynigion ar gyfer mesurau pellach.

A1.123 Er mwyn adlewyrchu pa mor bwysig yw hi fod pobl yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd, rydym yn rhoi sylw penodol i fforddiadwyedd band eang sefydlog a gwasanaethau rhyngrwyd symudol. Mae mesurau diogelu ar wahân ar waith i sicrhau bod gwasanaethau'n fforddiadwy i gwsmeriaid llinell dir yn unig.

A1.124 Ar ben hynny, rydym yn monitro ac yn adrodd ar brisiau'r holl wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys teledu drwy dalu, drwy ein hadroddiadau rheolaidd ar 'Arferion prisio gwasanaethau cyfathrebu yn y Deyrnas Unedig'.

A1.125 Mae mynediad cyhoeddus at wasanaethau digidol y tu allan i gylch gwaith Ofcom, a mater i'r Llywodraeth yw hynny.

## Tryloywder gwybodaeth am fand eang

A1.126 Nododd Ravi Saur fod diffyg tryloywder o ran lleihau cyflymder band eang oherwydd y galw uchel, ac awgrymodd y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi manylion am arafiadau ac am faint o amser y cyflawnwyd y gwarantau cyflymder isaf. Nododd Openreach broblem i ddefnyddwyr a oedd yn chwilio am ddata ar ddarpariaeth o ffynonellau gwahanol, gan nodi bod data darpariaeth Ofcom 3-4 mis ar ei hôl hi o gymharu â data darparwyr. Nododd Openreach hefyd y bydd angen adlewyrchu'r broses o dynnu hen gynnyrch ar y gwirwyr argaeledd band eang.

A1.127 Pwysleisiodd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon y dylid gwneud mwy i roi gwybod i ddefnyddwyr am ddewisiadau ar gyfer gwell cysylltedd sydd ar gael iddyn nhw neu a fydd ar gael iddyn nhw cyn bo hir, gan nodi'r her i ddefnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Roedd CityFibre yn ategu'r pwynt hwn, gan dynnu sylw at y ffaith bod diffyg dealltwriaeth o ffeibr llawn yn tanseilio'r nifer sy'n manteisio arno.

A1.128 Mae CityFibre wedi awgrymu cyflwyno label band eang ar gyfer y farchnad gyfan a fydd yn helpu defnyddwyr i ganfod ansawdd gwasanaethau band eang a chymharu pecynnau.

### Ein hymateb

A1.129 Er mwyn helpu i roi sicrwydd i bobl a busnesau ynghylch y cyflymderau y bydd eu gwasanaeth band eang yn eu darparu, mae Ofcom wedi sicrhau ymrwymiadau gan y rhan fwyaf o ddarparwyr band eang mwyaf y Deyrnas Unedig o dan y Codau Ymarfer gwirfoddol ar Gyflymderau Band Eang. Dan delerau'r Codau, pan na fydd cwsmeriaid yn gallu cael gafael ar yr isafswm cyflymder sydd wedi ei warantu, bydd eu darparwr naill ai'n datrys y broblem cyn pen tri deg diwrnod neu'n caniatáu i'r cwsmer adael ei gontract yn ddi-dâl. Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi ei ymchwil ar berfformiad cysylltiadau band eang sefydlog preswyl yn adroddiad Perfformiad Band Eang Cartrefi y Deyrnas Unedig. Roedd yr adroddiad diwethaf[10] yn ystyried y gofynion a roddwyd ar rwydweithiau yn ystod cyfnod clo ym mis Mawrth 2020.

A1.130 Fel y nodir uchod o dan 'Materion eraill sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith', mae Ofcom yn cydweithio â grŵp cynghori GigaTAG ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd GigaTAG ei adroddiad interim, a oedd yn argymell y dylai Ofcom a'r Llywodraeth annog gwybodaeth gliriach a mwy cyson am gynnyrch band eang gan y diwydiant, drwy labelu cynnyrch o bosibl. Rydym yn parhau i

[10] Perfformiad Band Eang yng Nghartrefi'r DU: adroddiad technegol (ofcom.org.uk)

weithio gyda GigaTAG wrth iddo ddatblygu ymhellach ei syniadau ar sut i wella'r wybodaeth sydd ar gael i bobl a busnesau.

## Y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd

A1.131 Gofynnodd FCS am eglurhad pellach ar newidiadau i'r Amodau Cyffredinol a roddwyd ar waith yn unol â'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. Anogodd uSwitch Ofcom i adolygu'n feirniadol amserlenni'r newidiadau hyn i weld a allai rhai fod yn fwy uchelgeisiol. Holodd Paul Wheelhouse, Aelod o Senedd yr Alban a Gweinidog yr Alban dros Ynni, Cysylltedd a'r Ynysoedd, am rôl Ofcom yn ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddiwygiadau i reoliadau y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd a rheoliadau mynediad at seilwaith, gan ofyn i Ofcom sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried yr heriau unigryw yn yr Alban wrth drafod yr ATI a'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.

### Ein hymateb

A1.132 Mae Ofcom wedi bod yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gynigion i ddiwygio'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd ers cryn amser, a bydd yn ceisio sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion y Deyrnas Unedig gyfan yn briodol. Rydym yn ymgysylltu'n agos â'r diwydiant ar weithredu darpariaethau hawliau defnyddwyr y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd cyn dyddiadau cau ym mis Rhagfyr 2021 a mis Mehefin 2022, yn ogystal â mis Rhagfyr 2022 ar gyfer newid.

A1.133 Bydd gweithredu rheolau newydd y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud nifer o newidiadau cymhleth i systemau a phrosesau, ar adeg pan fo'r coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau darparwyr. Rydym o'r farn bod y cyfnod o 12 mis rydym wedi ei roi i ddarparwyr i weithredu'r rhan fwyaf o'r rheolau, gydag estyniad o 18 mis ar gyfer y newidiadau mwyaf sylweddol (gwybodaeth cyn y contract a hawl cwsmeriaid i adael), yn briodol ac yn gymesur.

## Galwadau niwsans a sgam

A1.134 Roedd Which? yn cefnogi cynlluniau Ofcom ar gyfer galwadau niwsans, ond awgrymodd y gallai Ofcom chwarae rhan fwy gweithredol drwy hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr. Tynnodd TalkTalk sylw at ei gynnig i fynd i'r afael â galwadau sgam o dramor, gan awgrymu bloc gorfodol ar bob hunaniaeth llinellau galw yn y Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddarparu i'r Deyrnas Unedig y tu allan i'r llwybrau arfaethedig. Trafododd TalkTalk hefyd yr achos dros weithredu'r safon Secure Telephone Identity Revisited (STIR) yn y Deyrnas Unedig, gan nodi pryderon ynghylch cyfyngiadau STIR a gofyniad i weithredu cronfa ddata rhifau canolog.

### Ein hymateb

A1.135 Rydym yn cadeirio gweithgor strategol ar alwadau niwsans gan gydweithio â'r prif ddarparwyr cyfathrebiadau. Rydym yn casglu ac yn rhannu data o fewn y grŵp a byddwn

yn edrych ar sut gallwn adeiladu ar waith y grŵp hwn yn ogystal ag ystyried cynlluniau eraill.

A1.136 Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i weld a ellid cyflwyno rhai agweddau ar ddilysu hunaniaeth llinellau galw yn gynt, cyn symud i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn canol y 2020au. Yn y cyfamser, rydym hefyd yn ystyried a oes modd gwneud mwy i sicrhau mai dim ond galwadau â rhifau ffôn dilys sy'n cael eu cysylltu â'r sawl sy'n derbyn yr alwad. Er enghraifft, defnyddio gwiriadau mwy llym ar alwadau sy'n tarddu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n defnyddio rhifau ffôn y Deyrnas Unedig.

## Goruchwylio ymrwymiadau tegwch yn annibynnol

A1.137 Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon yn galw am waith monitro mwy trylwyr ac annibynnol ar Ymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid Ofcom, gan ofyn i Ofcom ystyried dulliau mwy annibynnol o fesur pa mor dda mae'r egwyddorion yn cael eu defnyddio i ychwanegu at yr wybodaeth mae'n ei chael gan weithredwyr.

### Ein hymateb

A1.138 Rydym yn parhau i fonitro perfformiad cwmnïau o ran yr Ymrwymiadau, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cynnydd, gan adolygu a yw cwmnïau'n cyflawni'r hyn maen nhw wedi ei addo, yn fuan. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn ystyried pa gamau pellach a allai fod yn briodol i fonitro cynnydd o ran yr Ymrwymiadau.

## Materion eraill sy'n ymwneud â Thegwch

A1.139 Nododd Ravi Saur faterion posibl i gwsmeriaid sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan un darparwr telegyfathrebiadau, gan awgrymu, gan fod darparwyr yn gallu rhoi llythyr diddatrys i gwsmeriaid sy'n anfodlon â gwasanaeth gwael, nad ydyn nhw'n cael eu hannog i wasanaethu cwsmeriaid sy'n wynebu gwasanaeth gwael. Awgrymodd Ravi Saur hefyd fod Ofcom yn atal cwsmeriaid newydd rhag codi prisiau is na chwsmeriaid presennol. Awgrymodd Harry Green amrywiaeth o ymyriadau sy'n ymwneud â phrisiau i wella canlyniadau defnyddwyr, gan gynnwys gwahardd codi prisiau ar ganol contract, sicrhau newid di-dor ar gyfer gwasanaethau wedi eu bwndelu, caniatáu i ddefnyddwyr optio allan o wasanaethau diangen, caniatáu i ddefnyddwyr optio allan o wasanaethau tanysgrifio, atal ffioedd am negeseuon testun 'cyfradd safonol' ac ymchwilio i'r cynnydd mewn prisiau.

A1.140 Awgrymodd Harry Green hefyd y dylai rhwydweithiau ddarparu mynediad awtomatig i rwydweithiau'r naill a'r llall os oes nam, a gofynnodd i Ofcom ymgynghori ar y cynnig hwn.

### Ein hymateb

A1.141 Nid yw'r ffaith bod cwsmeriaid yn talu prisiau gwahanol am eu gwasanaethau o reidrwydd yn peri pryder, ac yn aml mae'n digwydd mewn marchnadoedd cystadleuol. Gall cwsmeriaid sy'n siopa o gwmpas fanteisio ar ostyngiadau sy'n cael eu cynnig i annog newid

darparwr neu i gefnogi'r defnydd o wasanaethau newydd. Yn y farchnad band eang, mae cyfran sylweddol o gwsmeriaid incwm isel yn elwa ar brisiau is. Byddem yn disgwyl gweld darparwyr yn parhau i roi disgownt ar wasanaethau newydd, a thrwy hynny rai gwahaniaethau rhwng y prisiau mae cwsmeriaid gwahanol yn eu talu.

A1.142 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n ei chael yn anoddach ymgysylltu dan anfantais oherwydd yr arfer o roi disgownt, mae Ofcom wedi sicrhau ymrwymiadau gan bob darparwr band eang mawr i helpu eu cwsmeriaid agored i niwed i gael bargeinion gwell - er enghraifft, drwy gynnal adolygiadau prisiau ar gyfer eu cwsmeriaid agored i niwed a darparu gostyngiadau awtomatig lle nad yw cwsmeriaid agored i niwed yn gallu ymgysylltu. Mae gwaith i'w wneud o hyd gan ddarparwyr o ran canfod a chofnodi yn well pa mor agored i niwed yw cwsmeriaid, a byddwn yn monitro perfformiad cwmnïau yn y maes hwn, yn ogystal â'u bod yn glynu wrth yr ymrwymiadau maen nhw wedi eu gwneud. Rydym hefyd wedi sicrhau ymrwymiadau gan bob un o'r prif ddarparwyr symudol (ac eithrio Three) i roi disgownt i gwsmeriaid ar fargeinion wedi eu bwndelu pan fyddan nhw'n mynd y tu hwnt i gyfnod eu contract.

A1.143 Fel rhan o newidiadau diweddar rydyn ni wedi eu gwneud i roi newidiadau i reolau Ewropeaidd ar waith, byddwn hefyd yn cryfhau hawliau cwsmeriaid i adael pan fydd darparwyr yn gwneud newidiadau i'w contractau nad ydyn nhw er eu budd, ac oni bai eu bod o natur weinyddol yn unig ac nad ydyn nhw'n cael unrhyw effaith negyddol ar y cwsmer, neu'n cael eu gosod yn uniongyrchol gan y gyfraith, ac yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth gliriach ymlaen llaw cyn iddyn nhw ymrwymo i gontract, gan gynnwys crynodeb o'r contract a manylion yr holl wasanaethau maen nhw wedi optio i mewn iddyn nhw.

A1.144 Nid yw'n fwriad gennym cynnal adolygiad i osod rhwymedigaethau crwydro cenedlaethol ar hyn o bryd. Yn y gorffennol, pan fydd crwydro cenedlaethol wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun cydnerthedd, un pryder sydd wedi cael ei godi yw na fyddai gan unrhyw rwydwaith yn gyffredinol y capasiti i gefnogi cynnydd sydyn yn y galw o ganlyniad i nam ar rwydwaith cystadleuwyr, ac y gallai effaith trosglwyddo'r galw hwnnw danseilio'r gwasanaeth sydd ar gael i bob cwsmer.

A1.145 Rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus ynghylch materion yn ymwneud â thegwch, a byddwn yn ymchwilio lle byddwn yn canfod materion sy'n peri pryder.

## Cefnogi a datblygu darlledu yn y Deyrnas Unedig

### Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

A1.146 Anogodd BT Ofcom i ystyried sut mae gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu darparu a sut mae darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhyngweithio â buddsoddi mewn rhwydweithiau, gan nodi'r potensial ar gyfer cynhwysiant digidol ategol a pholisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Nododd Voice of the Listener and Viewer bwysigrwydd y band sbectrwm 600MHz a Freeview i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

A1.147 Anogodd Llywodraeth yr Alban Ofcom i ystyried cynulleidfaoedd yn yr Alban a chynnwys a gynhyrchwyd yn yr Alban, gan nodi y bydd yn parhau i ymgysylltu â phroses yr adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Anogodd Llywodraeth Cymru y byddai angen i unrhyw waith ddarparu digon o gyfle i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig, a nododd bwysigrwydd yr Iaith Gymraeg i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru.

### Ein hymateb

A1.148 O ran darparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn cadw mewn cof mai teledu sy’n cael ei ddarlledu yw’r ffordd fwyaf poblogaidd o hyd i gynulleidfaoedd wylio cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn ei ragair i ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar drwyddedu amlblecs Teledu Daearol Digidol, roedd y Gweinidog Gwladol wedi cydnabod bod llwyfan Freeview yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd ac i’r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddi draw i’r dyfodol.

A1.149 Yn ein dogfen ymgynghori Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, a oedd yn edrych ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom amlygu pwysigrwydd parhaus cyffredinolrwydd – gallu pobl o bob cefndir i gael gafael ar gynnwys sy’n werthfawr iddyn nhw, a thrwy hynny maen nhw’n cael eu cysylltu ag eraill ar draws y Deyrnas Unedig – fel elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

A1.150 Mae’r ymgynghoriad hwn wedi egluro bod yn rhaid diweddaru nifer o agweddau ar y fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal ar gael yn eang a'i bod yn hawdd dod o hyd iddyn nhw. Byddwn yn parhau i gynnal llawer iawn o waith ymchwil a dadansoddi i ddeall sut mae anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid ac yn gweithio i gefnogi buddsoddiad yn y rhwydweithiau sydd eu hangen i sicrhau bod modd cyflawni manteision cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Byddwn yn cyflwyno ein hargymhellion ar gyfer yr adolygiad hwn yn ystod yr haf.

A1.151 O ran bodlonrwydd cynulleidfaoedd, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau mathau o raglenni sy’n bwysig i gymdeithas. Fel y gwnaethom nodi yn ein hymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, dylai’r fframwaith ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hyrwyddo arloesi yn ogystal ag addasu i newidiadau yn y gynulleidfa ac yn y farchnad.

A1.152 Nodwyd gennym y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i'w chwarae o ran adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â pha mor bwysig yw hi bod y cynnwys yn teimlo'n ddilys i fywydau a phrofiadau'r gynulleidfa. Rydym yn parhau i weld hyn fel agwedd allweddol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a byddwn yn sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn ystyried anghenion dinasyddion ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru a’r Alban. Mewn perthynas â BBC Scotland, byddwn yn asesu ei berfformiad, fel rhan o’n hasesiad cyffredinol o sut mae’r BBC yn cyflawni ei bedwerydd diben cyhoeddus er mwyn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf ar y BBC. Ar ben hynny, byddwn yn edrych ar berfformiad BBC Scotland ar-lein er mwyn rhoi cyd-destun i’w berfformiad yn y flwyddyn gyntaf.

## Amrywiaeth a chynhwysiant ym maes darlledu

A1.153 Roedd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu (CBE) yn nodi amrywiaeth o bryderon ac argymhellion mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant ym maes darlledu. Gofynnodd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu i Ofcom gymryd camau i ddod â phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a oedd wedi gadael y diwydiant darlledu yn eu hôl, yn enwedig yn y BBC. Yn benodol, awgrymodd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu fod Ofcom yn ymchwilio i'r rhesymau pam roedd cyn aelodau o'r diwydiant darlledu wedi gadael ac yn mynnu bod darlledwyr yn adrodd ar yr hyn maen nhw'n ei wneud i ddod â chyn-weithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ôl i'r diwydiant darlledu. Awgrymodd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu hefyd y dylai Ofcom wneud mwy o ymchwil, gan gynnwys ymchwil i ddeall graddfa hiliaeth mewn darlledu, a phenodi Cyfarwyddwr Ymchwil Amrywiaeth. Roedd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu yn argymell y dylai Ofcom sefydlu corff annibynnol i adrodd am hiliaeth yn y diwydiant darlledu. Gofynnodd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu i Ofcom adolygu'r posibilrwydd o gyllid wedi ei neilltuo i hybu cyflogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y diwydiant darlledu ac y dylid cynnal digwyddiadau blynyddol ar amrywiaeth ymysg rhanddeiliaid. Yn olaf, awgrymodd yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb Darlledu y dylai cyfarfodydd rhanddeiliaid fod yn fwy tryloyw ac y dylai pleidiau sydd â barn feirniadol am ddarlledwyr gael eu gwahodd i gyfarfodydd rhanddeiliaid.

A1.154 Nododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ddiddordeb mewn cynrychioli a chynnwys unigolion hŷn neu bobl ag anableddau mewn darlledu. Roedd Llywodraeth yr Alban yn cefnogi gwaith i wella amrywiaeth ym maes darlledu, a nododd bwysigrwydd amrywiaeth daearyddol ac economaidd-gymdeithasol.

A1.155 Tynnodd Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar sylw at broblemau parhaus gydag is-deitlo ar y teledu, a nododd na fu newidiadau i'r polisi is-deitlo ers adolygiad yn 2015. Yn ogystal, tynnodd Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar sylw at y ffaith nad yw cynllun gwaith 2021/22 yn cynnwys cynlluniau i ddynodi un pwynt cwynion fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.

### Ein hymateb

A1.156 Mae ein hadroddiad ar amrywiaeth ym maes darlledu a gyhoeddwyd yn 2020 yn dangos yn glir, er mwyn gwneud cynnydd ystyrlon, nid dim ond mater o recriwtio ystod fwy amrywiol o weithwyr sydd ei angen, ond dal gafael ynddyn nhw hefyd.

A1.157 Rhan allweddol o hyn yw deall cyfansoddiad y rhai sydd wedi gadael y diwydiant yn well – yn enwedig o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd – ac a yw'n ymddangos bod pobl sy'n gadael yn cael eu gorgynrychioli gan bobl sydd â nodweddion penodol, ac os felly, pam.

A1.158 Rydym wedi gofyn i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth yn wirfoddol am gyfansoddiad trosiant staff ers 2017, ac rydym wedi cyhoeddi'r data fel rhan o'n hadroddiadau blynyddol. Rydym hefyd wedi gofyn i ddarlledwyr adrodd ar y camau maen nhw wedi eu cymryd i gynyddu amrywiaeth, gan gynnwys yn y broses recriwtio ac o ran cynnydd a dal gafael mewn cydweithwyr. Rydym yn gofyn i ddarlledwyr werthuso cynlluniau a dangos i ni

sut maen nhw wedi sefydlu beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Er mwyn helpu i wella ein dealltwriaeth o'r rhain a'r meysydd cysylltiedig ymhellach, rydym wedi comisiynu'r London School of Economics i gynnal dadansoddiad o'r bylchau i argymell lle mae angen rhagor o ymchwil.

A1.159 Rydym yn benderfynol o sbarduno newid systemig, lle mae gweithwyr o bob cefndir – yn y gorffennol neu'r presennol – yn teimlo eu bod yn cael cyfle teg a chyfartal i symud ymlaen, neu'n wir dychwelyd i yrfa yn y diwydiant teledu a radio.

A1.160 Mae Ofcom yn cwrdd â channoedd o unigolion a sefydliadau ar draws ei waith darlledu, ac mae amrywiaeth yn rhan allweddol o'r ymgysylltu eang hwnnw. Dros y blynyddoedd rydym wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal gan felinau trafod, cyrff llywodraethol, grwpiau undeb, darlledwyr a'u grwpiau rhwydwaith gweithwyr, prifysgolion a llawer mwy o gyrff eraill.

A1.161 Rydym wrthi'n ystyried sut gallwn ni gynyddu tryloywder ymhellach yn y maes hwn, er ei bod yn bwysig bod ein holl gyfarfodydd yn darparu fforwm ar gyfer cyfnewid barn yn agored ac yn onest. Bydd ein hadroddiadau amrywiaeth mewn darlledu blynyddol yn parhau i gyflwyno'r wybodaeth, y gweithgarwch, y canlyniadau a'r amcanion diweddaraf a fydd yn deillio o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn.

A1.162 Fel y dywedasom yn ein hadroddiad Amrywiaeth ym maes Darlledu diweddaraf, rydym yn dal yn agored iawn i feirniadaeth adeiladol, ac rydym bob amser yn agored i adborth ar sut gallwn wneud y gorau o'n sefyllfa i ddylanwadu ar newid. Byddwn yn cynnal digwyddiad eleni i ddarparu llwyfan ar gyfer trafodaeth agored a gonest am amrywiaeth ar draws y sector darlledu a beth arall mae angen ei wneud i sbarduno newid cyflymach. Ein nod yw clywed safbwyntiau newydd a ffres gan gynulleidfa mor eang â phosibl.

A1.163 Mae ein hwb amrywiaeth ar-lein hefyd yn darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a dolenni ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ym maes darlledu, ac mae'n gwahodd defnyddwyr i gysylltu â ni gydag ymholiadau drwy gyfeiriad e-bost penodol.

A1.164 Mae dyletswyddau cyfreithiol Ofcom o ran hyrwyddo cyfle cyfartal yn ymwneud â thrwyddedeion darlledu sy'n cyflogi dros 20 o bobl mewn cysylltiad â darparu eu gwasanaeth, ac sydd wedi eu trwyddedu i ddarlledwr am fwy na 31 diwrnod y flwyddyn. Ond rydym yn cydnabod y rôl y gall cyfryngau cymunedol ei chwarae yn amrywiaeth y diwydiant darlledu yn fwy cyffredinol, ac rydym yn awyddus i ymgysylltu â darlledwyr llai yn anffurfiol, er mwyn deall eu profiadau o amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi cefnogi cyfryngau cymunedol fel gwasanaeth hanfodol drwy gydol y pandemig, gyda nifer sylweddol o ddyfarniadau'n ymwneud â chyllid brys. Rydym yn cydnabod bod profiad go iawn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn hanfodol, ac rydym yn datblygu cysylltiadau â rhwydweithiau gweithwyr a rhyngddyn nhw ar draws amrywiaeth o ddarlledwyr.

A1.165 Fe wnaethom nodi yn ein trydydd Adroddiad Blynyddol ar y BBC a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 bod cyhoeddiadau'r BBC ar ei Ymrwymiad Amrywiaeth Creadigol a'r Gronfa Amrywiaeth Greadigol, sy'n clustnodi £100 miliwn a £12 miliwn ar gyfer cynyrchiadau teledu a radio amrywiol yn y drefn honno, yn galonogol, ac y byddwn yn

monitro'r cynnydd yn ofalus, gan ymgysylltu â'r BBC ynghylch y manylion, er mwyn i ni allu asesu'n effeithiol y cyfraniad mae'r rhain yn ei wneud at gyflawni rhwymedigaethau amrywiaeth y BBC o fewn Diben Cyhoeddus 4.

A1.166 Mae ein gwaith monitro amrywiaeth yn cynnwys data ar nifer y bobl hŷn a phobl anabl sy'n gweithio i ddarlledwyr teledu a radio. Roedd ein hadroddiad yn 2020 yn tynnu sylw at y diffyg cynrychiolaeth barhaus o bobl anabl ar bob lefel yn y sefydliadau hyn. Rydym yn tynnu sylw at yr angen penodol am gynrychiolaeth oddi ar y sgrin mewn swyddi gwneud penderfyniadau, i sicrhau cynnwys ar y sgrin sy'n adlewyrchu'r boblogaeth amrywiol mae'n bwriadu ei gwasanaethu.

A1.167 Rydym yn gwybod bod ansawdd gwasanaethau mynediad fel isdeitlo hefyd yn hollbwysig, ac mae Ofcom yn gorfodi gofynion statudol gwasanaethau o'r fath sydd ar gael ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Dyna pam y gwnaethom gynnal ein gwaith monitro helaeth blaenorol ar ansawdd isdeitlau byw. Fe wnaethom gydnabod bod cyfaddawdu rhwng cyflymder, oedi a chywirdeb isdeitlo byw, ac fe wnaethom gynnal ymchwil i ddewisiadau defnyddwyr. Yn dilyn hynny, fe wnaethom gynnal cyfarfod o gwmpas y bwrdd gyda grwpiau defnyddwyr i ddeall dewisiadau defnyddwyr ymhellach, ac rydym wedi parhau i ymgysylltu â darlledwyr mewn perthynas â chynnydd yn y maes hwn. Yn 2020 fe wnaethom gomisiynu rhagor o ymchwil i ddewisiadau defnyddwyr o ran gwasanaethau mynediad yn fwy cyffredinol. Bydd yr ymchwil hwn a gwaith ymgysylltu arall yn cyfrannu at ddiwygiadau i'n 'canllawiau arfer gorau' a gyhoeddir ochr yn ochr â chyflwyno gofynion newydd ar gyfer hygyrchedd ar-alw.

A1.168 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020) mae'n rhaid i Ofcom ddarparu un pwynt cyswllt ar-lein hygyrch (gan gynnwys ar gyfer pobl ag anableddau), ar gyfer darparu gwybodaeth a derbyn cwynion am faterion hygyrchedd yr ymdrinnir â nhw yn y Ddeddf. Rydym eisoes yn darparu pwynt cyswllt ar-lein ar gyfer cwynion sy'n cynnig amrywiaeth o ffyrdd o gysylltu ag Ofcom gan ddibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau personol (ffurflen ar-lein, e-bost pwrpasol, rhif ffôn a rhif ffôn testun). Rydym yn gobeithio gweithio gydag elusennau sy'n cynrychioli pobl anabl i godi ymwybyddiaeth o'r pwynt cyswllt hwn ar gyfer y rhai sydd ei angen.

## Trwyddedu radio

A1.169 Gofynnodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, Bedford Radio, Cyngor Bwrdeistref Bedford, Better Media, Bath Radio, Shire Sounds a Leicester Community Radio a'u gwrandawyr i Ofcom gynnal rownd o drwyddedu radio cymunedol FM. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid hyn yn annog Ofcom i ystyried anghenion lleol, cynnydd cyflwyno DAB ar Raddfa Fach, ardaloedd darparu DAB ar Raddfa Fach, ac ardaloedd lle na fyddai DAB ar Raddfa Fach yn gynaliadwy o bosibl.

A1.170 Derbyniodd Ofcom dros 100 o ymatebion i gefnogi Community Radio yng Nghaerlŷr, gan gynnwys yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn; Alex Scoppie, Andrew Titcombe, Barbara Grant Bennet, Clifford Brandbury, John Tulley, Keith Jayes, Maer Dinas Caerlŷr, Les Young, Mat Wise, Max Edwards, Wendy Anita a John Ashworth AS.

A1.171 Mynegodd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, bryder fod rhai o'r farn bod DAB ar Raddfa Fach yn ddewis amgen aneffeithiol i radio FM gan ei bod hi'n bosibl na fydd gwrandawyr o gefndiroedd incwm isel yn gallu prynu derbynnydd DAB a bod rhai manwerthwyr yn dal i werthu derbynyddion DAB etifeddol sy'n anghydnaws â DAB+. Yn ogystal, cododd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol heriau i ddarlledwyr sy'n gweithredu o dan drwyddedau Covid-19 mewn argyfwng dros dro, nad ydyn nhw'n gallu codi arian drwy hysbysebion.

A1.172 Gofynnodd Barry Clack i Ofcom wella ei gyflymder a'i ddull o drwyddedu, gan gyflwyno unrhyw estyniad neu welliant i'r sector radio cymunedol. Awgrymodd Barry hefyd y dylai Ofcom fod yn gliriach yn ei amserlenni er mwyn caniatáu i weithredwyr amlblecs DAB ar raddfa fach baratoi'n ariannol. Yn olaf, awgrymodd Barry y dylai Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddarparu rhagor o wybodaeth a chymorth ariannol i weithredwyr MUX DAB ar Raddfa Fach.

A1.173 Awgrymodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol y dylai Ofcom sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth gyda gorsafoedd radio cymunedol i roi gwybod iddyn nhw bod trwyddedau'n cael eu hadnewyddu o leiaf dri mis cyn iddyn nhw ddod i ben.

A1.174 Awgrymodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol hefyd y dylid cael pwysoliad Llundain ar gyfer cyfraddau fesul awr gwirfoddolwyr radio cymunedol oherwydd y costau byw uwch.

A1.175 Gofynnodd Llywodraeth yr Alban i Ofcom ddatblygu a chynnal rhwydwaith radio yn yr Alban sy'n diwallu anghenion y gynulleidfa.

### Ein hymateb

A1.176 Nid yw Ofcom yn cynllunio rhagor o drwyddedu radio cymunedol analog ar hyn o bryd wrth i ni barhau â'r broses i drwyddedu DAB ar raddfa fach. Credwn fod DAB ar raddfa fach yn cynrychioli defnydd priodol o sbectrwm, gan fodloni galw amlwg gan radio cymunedol, gorsafoedd radio masnachol llai a newydd-ddyfodiaid am lwybr fforddiadwy at radio digidol daearol. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i sicrhau bod ystod amrywiol o wasanaethau radio ar gael yn barhaus ar draws y Deyrnas Unedig, ar lwyfan sy'n cyfrif am fwy a mwy o wrando ar y radio.

A1.177 Rydym o'r farn ei bod er budd cynulleidfaoedd yn gyffredinol i ni flaenoriaethu DAB ar raddfa fach, hyd yn oed gan dderbyn y bydd hyn yn arwain at oedi cyn y gellid trwyddedu gwasanaethau FM newydd posibl, oherwydd yn y pen draw bydd DAB ar raddfa fach yn cynnig mwy o orsafoedd i gynulleidfaoedd, yn fwy effeithlon, ac mewn mwy o leoliadau, nag y gall FM ei wneud byth. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, rydym yn barod i wrando ar ddadleuon ynghylch a yw gorsaf benodol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn golygu y gallai Ofcom wyro oddi wrth ei flaenoriaeth polisi i gyfiawnhau agor rownd o drwyddedu lleol mewn ardal benodol.

A1.178 Mae tystiolaeth o arolwg Traciwr Technoleg Ofcom nad oes problem enfawr o ran fforddiadwyedd o ran cael gafael ar radio digidol. Mae'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr a ydyn nhw'n debygol/yn annhebygol o brynu derbynnydd DAB yn y 12 mis nesaf. Cadarnhaodd 66% o ymatebwyr C2DE eu bod yn annhebygol o brynu radio DAB, ond dim

ond 12% o'r rhai hynny (felly ychydig o dan 8% o ymatebwyr C2DE yn gyffredinol) a ddywedodd mai'r rheswm am hyn oedd nad oedden nhw'n gallu fforddio un. Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin gan ymatebwyr nad oedden nhw'n gweld angen (58%) a gan y rhai a oedd yn fodlon â'r gwasanaethau presennol (54%).

A1.179 Cafodd ein cynlluniau ar gyfer trwyddedu DAB ar raddfa fach eu nodi yn ein datganiad 'Trwyddedu DAB ar raddfa fach'. Mae Ofcom wedi darparu gwybodaeth helaeth am ofynion technegol DAB ar raddfa fach, gan gynnwys gweithdy ar-lein.

A1.180 Bydd manylion am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach fydd yn cael eu hysbysebu ym mhob swp yn cael eu cyhoeddi ychydig cyn dyddiad yr hysbyseb. Bydd yr ardaloedd yn cael eu dewis gan ddefnyddio'r wyth maen prawf a nodir yn ein datganiad 'Trwyddedu DAB ar raddfa fach'

A1.181 Ein cynllun cychwynnol oedd cwblhau rownd unigol o geisiadau am welliannau ac estyniadau i radio cymunedol yn 2018/19. Fodd bynnag, o ystyried y galw am y newidiadau technegol hyn, fe wnaethom ni gadarnhau ym mis Medi 2019 y byddai'r ffenestr hon yn aros yn agored am gyfnod amhenodol. Yn ein datganiad, roeddem wedi cadarnhau bod ein gallu i asesu a chymeradwyo ceisiadau am welliannau neu estyniadau gan orsafoedd radio analog presennol yn dibynnu ar argaeledd adnoddau i gwblhau'r gwaith. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yn rhaid i ni ohirio ein hagwedd at y gwaith hwn a blaenoriaethu agweddau eraill ar ein gwaith. Mae hyn yn dal yn wir wrth i ni flaenoriaethu trwyddedu amlblecsau DAB ar raddfa fach a thrwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol (C-DSP).

A1.182 Rydym yn nodi pryderon ynghylch adnewyddu trwyddedau radio ac yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i leddfu'r pryder hwn. Yn ddiweddar iawn, rydym wedi cwblhau nifer sylweddol o benderfyniadau yn y maes gwaith hwn sy'n rhoi llawer mwy o rybudd i drwyddedigion cyn dyddiad dod i ben gwreiddiol eu trwydded. Byddwn yn parhau i adolygu hyn a byddwn yn cynnwys y cais am i hysbysiadau gael eu hanfon at y rhai sy'n dal trwyddedau dri mis cyn y dyddiad dod i ben presennol yn ein prosesau presennol

A1.183 Mae pwysoliad Llundain ar gyfer cyfraddau gwirfoddolwyr radio cymunedol yn fater y bydd angen i ni ei ystyried yn fanwl. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad cychwynnol yn dangos bod yr oriau gwirfoddoli sy'n cael eu hadrodd gan orsafoedd radio cymunedol yn llawer uwch ar hyn o bryd na'r gwerth sydd ei angen i wrthbwyso incwm hysbysebu, a fyddai'n dangos nad oes angen adolygiad o reidrwydd ar hyn o bryd.

A1.184 Nodwn gefnogaeth barhaus Llywodraeth yr Alban i'r sector radio yn yr Alban. Bydd DAB ar raddfa fach yn rhoi cyfleoedd i ragor o orsafoedd yn yr Alban ddarlledu.

## Y Gronfa Radio Cymunedol

A1.185 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol i Ofcom gynnal y rownd nesaf o gyllid radio cymunedol cyn gynted â phosibl, a dadleuodd nad yw'r gronfa bresennol yn ddigonol i ddarparu cymorth sylweddol i'r sector. Awgrymodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol fod Ofcom yn comisiynu ymchwil i'r gronfa radio cymunedol a sut mae wedi cael ei defnyddio gan orsafoedd i gael gafael ar gyllid o fannau eraill, a galwodd ar Ofcom i weithio

gyda'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyflwyno'r achos dros gronfa well sy'n gallu cynnig mwy o gefnogaeth i orsafoedd radio cymunedol.

A1.186 Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu bwriad Ofcom i ddarparu trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig newydd, a nododd ei bod yn awyddus i weithio'n agos gydag Ofcom i sicrhau bod unrhyw gyllid a ddarperir yn 2021/22 o fudd i orsafoedd radio cymunedol cymwys yng Nghymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru hefyd na fyddai'n dymuno gweld llacio neu ddileu'r rheolau lleolrwydd presennol ar radio masnachol.

### Ein hymateb

A1.187 Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n berchen ar ac yn rheoli'r gronfa radio cymunedol, ac felly penderfyniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw sut dylid defnyddio'r gronfa hon ac a ddylid ei hail-bwrpasu i gefnogi cyllid brys. Nid yw Ofcom yn ymwybodol eto o gynlluniau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn hyn o beth ar gyfer 2021/22. Byddem yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil yn y maes hwn, ond gan mai dim ond y Gronfa Radio Cymunedol mae Ofcom yn ei gweinyddu, mae angen i unrhyw gynllun ymchwil gael ei roi ar waith gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nid oes gan Ofcom gynlluniau ar hyn o bryd i ddiwygio sut mae lleolrwydd ar radio masnachol yn cael ei reoleiddio. Nodwn gefnogaeth yr ymatebydd mewn perthynas â thrwyddedau gwasanaeth cyfyngedig newydd a chyllid ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd tîm Ofcom yng Nghymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a deiliaid trwyddedau i gynnal gweithdy ar weithredu'r gronfa radio cymunedol er mwyn annog ceisiadau o Gymru.

## Y BBC

A1.188 Mynegodd Llywodraeth Cymru ddiddordeb mewn ymgysylltu ag Ofcom ynghylch esblygiad Trwydded Weithredu'r BBC a mesurau perfformiad, ac mae wedi gofyn i unrhyw waith monitro neu adolygu ar ddarpariaeth y BBC gynnwys asesiad o'r ddarpariaeth yng Nghymru. Awgrymodd MG ALBA y dylai Ofcom sicrhau bod darpariaeth ddigonol a theg ar gyfer darpariaeth ieithoedd lleiafrifoedd cynhenid yn adolygiad Ofcom o'r BBC.

A1.189 Nododd Voice of the Listener and Viewer bryderon ynghylch cyllid y BBC, gan ddadlau bod yn rhaid iddo aros yn annibynnol ac na ddylid gwyrdroi ei genhadaeth oherwydd diffyg cyllid neu ddibyniaeth ar gyllid masnachol. Roedd Voice of the Listener and Viewer hefyd yn dadlau na ddylai bodlonrwydd a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd fod yn brif fesurau llwyddiant ar gyfer y BBC na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach, gan nodi pwysigrwydd arloesi a sicrhau bod dinasyddion yn ymestyn eu barn a'u profiadau drwy ddarlledu.

### Ein hymateb

A1.190 Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC, rydym yn asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws y Gwledydd, gan gynnwys yng Nghymru.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth a metrigau i ategu ein hasesiadau perfformiad.

A1.191 Mae cymorth ar gyfer darlledu Gaeleg yn rhan bwysig o sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yng ngwledydd y Deyrnas Unedig. Mae gwasanaethu cynulleidfaoedd y gwledydd yn fater strategol allweddol i'r BBC ac mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'i werth cyhoeddus. Rydym felly'n disgwyl edrych ar y maes hwn yn ehangach fel rhan o'n hadolygiad cyfnodol cyntaf o'r BBC.

A1.192 Bydd Ofcom yn parhau i adrodd ar berfformiad y BBC ac, fel rhan o'n hadolygiad cyfnodol, bydd yn ystyried pa mor effeithiol y gall barhau i wasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig. Fel rhan o'r ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, rydym wedi nodi amrywiaeth o ddewisiadau gwahanol a allai chwarae rhan wrth gyllido cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ond rydym yn nodi bod cwestiynau am gyllido'r BBC yn benodol yn y dyfodol yn faterion i'r Llywodraeth a Senedd Prydain fel rhan o'r Adolygiad nesaf o Siarter y BBC.

## Comisiynu yn y sector cynhyrchu annibynnol

A1.193 Nododd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon bryder cynyddol bod mwy o gomisiynu'n dychwelyd i Lundain a De Ddwyrain Lloegr yn sgil y coronafeirws. Gofynnodd y Pwyllgor i Ofcom ymchwilio i'r pryder hwn ac ystyried a oes angen unrhyw ymyriad i ddiogelu'r cynnydd a wnaed hyd yma.

### Ein hymateb

A1.194 Yn ein dogfen ymgynghori Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, rydym yn cydnabod mai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r buddsoddwyr mwyaf mewn cynnwys newydd sy'n cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig o hyd ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig. Yn ogystal â chyfrannu at yr economi greadigol, nodwn fod hyn hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant y Deyrnas Unedig mewn ffordd y mae gwylwyr yn dal i'w werthfawrogi'n fawr. Nodwn fod angen i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus allu darparu amrywiaeth eang o gynnwys amrywiol ac o ansawdd uchel sy'n ddifyr ac sy'n diddanu, newyddion a materion cyfoes dibynadwy a diduedd, a chynnwys sy'n adlewyrchu gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynyrchiadau o Ogledd Iwerddon, yn ogystal â'r Alban a Chymru.

A1.195 Yn ein dogfen ymgynghori Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr sy'n edrych ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom nodi'r rôl mae'n parhau i'w chwarae o ran adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â'r pwyslais mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar gynnwys sy'n teimlo'n driw i'w bywydau a'u profiadau eu hunain. Byddwn yn parhau i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â rhwymedigaethau sydd wedi eu dylunio i sicrhau diwydiant cynhyrchu bywiog ar draws y Deyrnas Unedig.

## Safonau cynnwys

A1.196 Gofynnodd Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Cynghori Ofcom Cymru i Ofcom ystyried ymateb darlledwyr i wybodaeth anghywir am sefyllfa Cymru o ran argyfwng y coronafeirws. Galwodd Pwyllgor Cynghori Ofcom Cymru ar Ofcom i gomisiynu ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i ymchwilio i'r mater hwn fel y bydd data cadarn ar gael i lywio polisi yn y dyfodol, gan nodi ei farn fod y sylw wedi codi materion posibl yn ymwneud ag adrodd anghywir a'r risg o gamarwain cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig.

A1.197 Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bryder ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran mewn darlledu.

A1.198 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol i Ofcom fabwysiadu dull mwy pragmatig o ymdrin â chwynion gan wrandawyr ar y radio, gan nodi bod disgwyl i orsafoedd ymateb i gŵyn mewn cyfnod byr ond bod yn rhaid iddyn nhw aros am gyfnod hir cyn i Ofcom roi ei farn.

### Ein hymateb

A1.199 Cafodd Ofcom nifer fach o gwynion am adroddiadau gan ddarlledwyr ar eu hallbwn newyddion ar draws y Deyrnas Unedig ynghylch ymateb y gwledydd datganoledig i bandemig y coronafeirws a oedd yn anghywir ym marn y rhai a oedd yn cwyno. Ar ôl asesu'r cwynion hyn yn ofalus, roeddem o'r farn nad oedden nhw wedi codi materion o dan y Cod Darlledu a oedd angen ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, yng ngoleuni pwysigrwydd sylfaenol cywirdeb newyddion, yn enwedig wrth ddelio â materion sy'n bwysig iawn i'r cyhoedd, rydym ar hyn o bryd yn ystyried comisiynu ymchwil cynulleidfa ynghylch sut mae darlledwyr newyddion y Deyrnas Unedig wedi ymdrin â materion sy'n dod o dan gyfrifoldeb y gweinyddiaethau yng ngwledydd gwahanol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng nghyswllt y Pandemig.

A1.200 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried pob cwyn mae'n ei chael. Fodd bynnag, ni fydd Ofcom yn cysylltu â darlledwr am recordiadau, gwybodaeth neu sylwadau ffurfiol ynghylch sut mae wedi cydymffurfio ag amodau ei drwydded a/neu godau a rheolau Ofcom oni bai fod cwyn yn codi materion mae Ofcom o'r farn bod cyfiawnhad dros eu hasesu neu eu ymchwilio iddyn nhw ymhellach. Mae gweithdrefnau cyhoeddedig Ofcom ar gyfer delio â chwynion, am gydymffurfiad darlledwr ag amodau ei drwydded a'i gynnwys darlledu, yn nodi'r amserlenni mae'n rhaid i ddarlledwyr eu dilyn i ddarparu gwybodaeth i Ofcom yn ogystal â'r amserlenni mae Ofcom yn anelu at gwblhau asesiadau o gwynion sy'n deillio o ymchwiliadau o'u mewn. Fodd bynnag, mae Ofcom yn cydnabod y gall materion sydd y tu hwnt i reolaeth resymol darlledwr olygu na all y darlledwr ddarparu recordiadau a gwybodaeth o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani, a bod darlledwyr bach, yn enwedig y rhai yn y sector radio cymunedol sy'n aml yn cael eu staffio gan wirfoddolwyr, yn debygol o fod â llai o adnoddau at ddibenion cydymffurfio o'i gymharu â gorsafoedd mwy. Gan hynny, rydym yn hyblyg pan fo'n bosibl ac yn cymryd camau priodol drwy ystyried ceisiadau gan ddarlledwyr am estyniadau i'n terfynau amser o ran darparu recordiadau a gwybodaeth, gan ystyried faint o gynnwys/gwybodaeth a geisir. Fodd bynnag, bydd adegau

pan fydd natur mater yn golygu y bydd Ofcom yn mynnu bod trwyddedigion yn darparu recordiadau a/neu ymatebion i Ofcom yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein gweithdrefnau, neu yn gyflym e.e. pan fyddwn yn ystyried materion posibl o ysgogi, casineb di-destun a/neu niwed.

A1.201 O dan Reol 2.3 y Cod Darlledu, mae'n rhaid i ddarlledwyr ddefnyddio safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol i sicrhau bod y cyd-destun yn cyfiawnhau deunydd a allai achosi tramgwydd. Mae hyn yn cynnwys deunydd sy'n gwahaniaethu ar sail oedran. Mae Ofcom wedi cael nifer fach o gwynion gan wylwyr a gwrandawyr am gynnwys a oedd yn gwahaniaethu ar sail oedran yn eu barn nhw. Ar ôl asesu'n ofalus, daethom i'r casgliad nad oedd yr un o'r cwynion hyn wedi codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad o dan ein rheolau. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn cynnal ymchwil newydd ynghylch agweddau cynulleidfaoedd at iaith a chynnwys tramgwyddus. Yn yr un modd â'n gwaith ymchwil blaenorol yn y maes hwn, rydym wedi sicrhau bod safbwyntiau pobl hŷn yn cael eu cynnwys er mwyn i ni allu ystyried y rhain wrth wneud penderfyniadau.

## Ieithoedd brodorol

A1.202 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i drwyddedu radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru roi ystyriaeth i'r Gymraeg a phennu bod nifer o oriau yn cael eu darlledu yn Gymraeg, gyda datganiad am gynnwys Cymraeg ar y we. Gofynnodd Llywodraeth yr Alban i Ofcom gefnogi darparwyr gwasanaethau cyfryngau cynhenid a'r BBC wrth gynllunio ar gyfer heriau strategol darlledu Gaeleg ac, yn fwy cyffredinol, gofyn am gyfeirio at yr Aeleg ochr yn ochr â'r Gymraeg yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Gofynnodd MG ALBA yn benodol i Ofcom ystyried sefydlu metrigau ar gyfer gwasanaethau ieithoedd lleiafrifol cynhenid, ac awgrymodd y gellid cefnogi ieithoedd cynhenid drwy ddarpariaeth lefel gwasanaeth sylfaenol a sicrhau amlygrwydd yn y parth ar-lein

### Ein hymateb

A1.203 Mae cymorth ar gyfer darlledu Gaeleg yn rhan bwysig o sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yng ngwledydd y Deyrnas Unedig. Mae gwasanaethu cynulleidfaoedd y gwledydd yn fater strategol allweddol i'r BBC ac mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'i werth cyhoeddus. Rydym felly'n disgwyl edrych ar y maes hwn yn ehangach fel rhan o'n hadolygiad cyfnodol.

A1.204 Ni all Ofcom orfodi diwygio ymrwymiadau rhaglennu (mewn gwasanaethau teledu lleol yng Nghymru), ymrwymiadau allweddol (mewn gwasanaethau radio cymunedol) na fformatau (mewn gwasanaethau radio masnachol) i fynnu bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y gwasanaethau, sut bynnag y cânt eu darparu. Byddai angen i'r trwyddedai ofyn am hyn fel newid i'w drwydded. Mae Ofcom yn cymryd ei ddyletswyddau o ran y Gymraeg o ddifrif ac mae'n ymdrechu i gydymffurfio â'i safonau fel y'u nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Byddai unrhyw gais i ddiwygio trwyddedau fel hyn yn cael eu hystyried yn ofalus, pe baen nhw'n cael eu gwneud gan drwyddedeion.

A1.205 Nododd ein hymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr y ôl bwysig mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae o ran adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig, gan

gynnwys ei hamrywiaeth ieithyddol a phwysigrwydd sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch i gynulleidfaoedd os yw am sicrhau'r manteision gorau o ran gwasanaeth cyhoeddus. Drwy ein gwaith, byddwn yn parhau i ystyried y rôl y gall rheoleiddio ei chwarae o ran sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o amcanion gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

## Paratoi i reoleiddio niwed ar-lein

### Y drefn Niwed Ar-lein

A1.206 Roedd nifer o randdeiliaid o blaid penodi Ofcom yn rheoleiddiwr Niwed Ar-lein yn y dyfodol. Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Carnegie UK, wedi gofyn am ragor o fanylion gan Ofcom ynghylch sut mae'r cynlluniau wedi newid ers ei benodi

A1.207 Awgrymodd Better Media y dylid dynodi Niwed Ar-lein yn fater o bryder ar wahân i'r cyhoedd sy'n annibynnol ar reoleiddio economaidd a llwyfannau.

A1.208 Awgrymodd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr fod Ofcom yn cymryd agwedd ehangach at Niwed Ar-lein na'r hyn a nodir yn y drefn niwed ar-lein, gan gynnwys edrych ar niwed ariannol sy'n deillio o alwadau sy'n ymddangos fel eu bod yn dod o ffynhonnell ddilys, trolio ar-lein, a mynediad at gynnwys amhriodol i blant. Awgrymodd Which? hefyd bod sgamiau ar-lein yn cael eu cynnwys yn y bil Niwed Ar-lein. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofcom ymgysylltu â nhw i sicrhau bod gwaith yn y dyfodol yn adlewyrchu blaenoriaethau yng Nghymru, a nododd Llywodraeth yr Alban ddisgwyliad y byddai Ofcom yn ehangu ei bresenoldeb yn yr Alban, yn enwedig wrth i'r cyfrifoldebau am Niwed Ar-lein ehangu.

A1.209 Nododd rhanddeiliaid gan gynnwys TalkTalk, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaethau'r Ombwdsmon bwysigrwydd cydweithio yn y maes hwn neu gynnig eu harbenigedd ar gyfer ymdrechion cydweithredol. Dywedodd TalkTalk hefyd eu bod yn disgwyl y byddai Ofcom yn ymgynghori â Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd ar yr adnodd gorfodi rhwystro gwefannau arfaethedig.

A1.210 Roedd gan randdeiliaid ddiddordeb hefyd yn y rhyngweithio rhwng y Llwyfan Rhannu Fideos a chyfundrefnau Niwed Ar-lein.

#### Ein hymateb

A1.211 Mae Ofcom yn rheoleiddiwr annibynnol sydd wedi hen ennill ei blwyf ac mae gennym enw da am ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed ar yr un pryd â chynnal rhyddid mynegiant. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn nodi rhagor o syniadau ynghylch sut rydym yn gweld y drefn niwed ar-lein yn gweithio'n ymarferol.

A1.212 Nid ydym yn bychanu maint y swydd ac rydym yn paratoi ar gyfer ein rôl newydd, gan ddechrau ennill sgiliau newydd a meithrin meysydd gallu a chapasiti – drwy hyfforddiant a thrwy gyflogi cydweithwyr arbenigol mewn meysydd fel data a thechnoleg ar-lein.

A1.213 Byddwn yn canolbwyntio’n benodol ar fynd i’r afael â’r niwed mwyaf difrifol, gan gynnwys deunydd anghyfreithlon, er mai penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw’r rhychwant o niwed sydd o fewn cwmpas y drefn sydd ar ddod. Mae’r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ddrafft eleni. Ni fydd Ofcom yn cael unrhyw bwerau newydd nes bydd y ddeddfwriaeth wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Rydym yn deall mai bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw i’r rheoleiddiwr ddatblygu ei Godau Ymarfer a’i Ganllawiau ei hun ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei phasio, a byddwn yn ymgynghori ar ddatblygu ein trefn reoleiddio. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig, gan gynnig cyngor technegol arbenigol drwy’r broses ddeddfwriaethol.

A1.214 Bydd cyflwyno rheoleiddio yn gynharach i Lwyfannau Rhannu Fideo sydd wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn rhoi sylfaen gadarn i lywio a datblygu’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer niwed ar-lein yn y dyfodol. Drwy ein gwaith yn rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo, byddwn yn datblygu ein sgiliau a’n harbenigedd presennol, yn cael profiad ymarferol ‘yn y gwaith’, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y gofod ar-lein. Mae’r trefniadau’n cyd-fynd â’u nod cyffredin o ddal gwasanaethau i gyfrif am ddiogelu defnyddwyr drwy fabwysiadu systemau a phrosesau priodol. Fodd bynnag, bydd hyd a lled y rhyng-gysylltiad rhwng y cyfundrefnau’n dod yn gliriach wrth i’r broses ddeddfwriaethol ar gyfer y drefn niwed ar-lein ddatblygu.

A1.215 Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn nodi rhagor o syniadau ynghylch sut rydym yn gweld y drefn niwed ar-lein yn gweithio’n ymarferol. Cyn caffael pwerau a dyletswyddau newydd i reoleiddio niwed ar-lein, byddwn yn defnyddio ein pwerau i reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig a’n rhaglen Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau i wella diogelwch ar-lein ar gyfer defnyddwyr y rhyngrwyd. Byddwn yn canolbwyntio’n benodol ar fynd i’r afael â’r niwed mwyaf difrifol, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar blant, er mai penderfyniad y Llywodraeth a’r Senedd yw’r rhychwant o niwed sydd o fewn cwmpas y drefn sydd ar ddod. Byddwn yn ymgynghori ar ddatblygu ein trefn reoleiddio.

A1.216 Byddwn yn gweld mantais fawr i’n hamrywiaeth daearyddol a byddwn yn ceisio cynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yn Belfast, Caerdydd a Chaeredin i sicrhau ein bod yn gallu denu doniau gorau y DU a’n bod yn cynrychioli pob rhan o’r Deyrnas Unedig. Rydym wedi ehangu ein swyddfa yng Nghaeredin dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi buddsoddi mewn technoleg i’n galluogi ni i wneud hyn.

A1.217 Wrth ddatblygu’r drefn, byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau cryf â’r diwydiant, llunwyr polisïau, arbenigwyr academaidd, elusennau a rheoleiddwyr eraill. Er mwyn manteisio i’r eithaf ar reoleiddio ar-lein, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ein bod ni’n parhau i feithrin cysylltiadau ag amrywiaeth o sefydliadau arbenigol, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

## Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau

A1.218 Mynegodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a’r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (ACOD) eu cefnogaeth i raglen Llythrennedd yn y Cyfryngau Ofcom. Awgrymodd Better

Media nad yw'r model llythrennedd yn y cyfryngau a ddefnyddir gan Ofcom yn rhoi digon o sylw i ddinasyddiaeth, ymgysylltu dinesig ac arferion cyfryngau cyfranogol, ac o ganlyniad ni all gefnogi'r gwaith o feithrin gallu llythrennedd yn y cyfryngau mewn cymdeithas.

**Ein hymateb**

A1.219 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r rhaglen bwysig hon, gan nodi pwysigrwydd llythrennedd yn y cyfryngau o fewn y gyfundrefn Iechyd Galwedigaethol ond hefyd y cysylltiadau ehangach â meysydd fel rheoleiddio marchnadoedd digidol. Mae rhwydwaith a phanel cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom (sydd â thros 200 o aelodau erbyn hyn) yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn edrych yn eang ar lythrennedd yn y cyfryngau ac ein bod ni'n gallu gweithio gyda phartneriaid i hybu'r arferion gorau ar draws y sector.

## Marchnadoedd Ar-lein

A1.220 Mynegodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Carnegie UK a Which?, eu cefnogaeth i waith Ofcom mewn marchnadoedd digidol ac o dan y Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddwyr Digidol. Awgrymodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK y dylai Ofcom ymgysylltu'n eang â rheoleiddwyr eraill, nid dim ond y rhai yn y Fforwm, i sicrhau bod y drefn Niwed Ar-lein mor effeithiol â phosibl.

**Ein hymateb**

A1.221 Ar 10 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Fforwm ei gynllun gwaith ar gyfer 2021-22. Rydym yn croesawu ymgysylltu ar waith y Fforwm ac rydym wrthi'n hwyluso cydweithrediad a chydlyniad ehangach y tu hwnt i'r Fforwm. Ar 1 Ebrill, bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn ymuno â'r Fforwm, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, y Rheoleiddiwr Systemau Talu, y Swyddfa Eiddo Deallusol, y Comisiwn Gamblo ac asiantaethau eraill fel bo'n briodol. Roedd y Fframwaith hefyd yn nodi cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid fel rhan o'r cynllun gwaith.

## Materion eraill ar-lein

A1.222 Mynegodd Harry Green bryder ynghylch anhawster dad-danysgrifio o rai gwasanaethau ar-lein, gan awgrymu bod gofyn i bob cwmni sy'n cynnig gwasanaeth tanysgrifio ar-lein wneud dad-danysgrifio mor hawdd â thanysgrifio.

**Ein hymateb**

A1.223 Rydym yn cytuno y dylai cwmnïau ei gwneud hi mor hawdd gadael gwasanaeth ag y mae i ymrwymo i gontract newydd. Mae ymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid yn adlewyrchu hyn, yn benodol Ymrwymiad 5 (gall cwsmeriaid gofrestru, newid a gadael eu gwasanaethau'n gyflym ac yn ddidrafferth).

# Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

## Amrywiaeth a chynhwysiant

A1.224 Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cefnogi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant Ofcom, gan nodi pwysigrwydd ymrwymiadau i gadw a recriwtio gweithwyr hŷn ac ystyried gwelliannau i arferion gweithio hyblyg.

### Ein hymateb

A1.225 Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad Amrywiaeth yn Ofcom, adroddiad ystadegol sy'n nodi cyfansoddiad amrywiaeth ein gweithlu yn gyffredinol, yn ogystal â'r canlyniadau i grwpiau penodol o gydweithwyr, o'r adeg maen nhw'n ymuno â ni ir adeg maen nhw'n ein gadael ni. Mae hyn yn cynnwys ein dadansoddiad o oedran yn gyffredinol, gan gynnwys yn ôl graddfa a dechreuwyr newydd, fel enghreifftiau, yn ogystal â chanlyniadau mewn meysydd fel hyrwyddo a pherfformiad. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth bum mlynedd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, ein gweledigaeth a'n targedau ar gyfer y gweithlu, a darparodd ein hadroddiad ystadegol fewnbwn i lunio hynny. Er ein bod ni wedi blaenoriaethu'r tri maes craidd lle'r oedd y tangynrychiolaeth i'w gweld fwyaf, rydym hefyd wedi ystyried oedran a nodweddion eraill. Rydym wedi ymrwymo i set gynyddol ac ehangach o adroddiadau a monitro mewnol, gydag oedran yn cael ei gynnwys fel rhan o hyn.

A1.226 Mae chwarter (24%) ein cydweithwyr yn 50 oed a hŷn, gyda 5% dros 60 oed. Mae gennym arferion recriwtio cynhwysol i sicrhau ein bod yn lleihau rhagfarn yn y broses recriwtio fel geiriad disgrifiad swydd cynhwysol neu ddileu gofynion lefel gradd pan nad yw hynny'n hanfodol ar gyfer rôl.

## Technolegau sy'n datblygu

A1.227 Roedd uSwitch yn cytuno ag ymrwymiad Ofcom i gefnogi technolegau newydd a nododd fod diffyg ymdrech gydlynol o ran ymgysylltu â defnyddwyr ynghylch y technolegau hyn, gan awgrymu y gellid gwneud mwy i addysgu defnyddwyr am fanteision cynnyrch newydd. Tynnodd Better Media sylw at bwysigrwydd atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol i effeithiau technolegau newydd.

### Ein hymateb

A1.228 Mae Ofcom wedi ymrwymo i gyhoeddi canlyniadau ei waith ymchwil technoleg lle bynnag y bo hynny'n ymarferol er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid am ein canfyddiadau.[11]

[11] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/emerging-technologies

A1.229 Fel y nodir uchod o dan 'Materion eraill sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith', mae Ofcom yn cydweithio â grŵp cynghori GigaTAG ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd GigaTAG ei adroddiad interim, a oedd yn argymell y dylai Ofcom a Llywodraeth y DU annog gwybodaeth gliriach a mwy cyson am gynnyrch band eang gan y diwydiant, drwy labelu cynnyrch o bosibl. Rydym yn parhau i weithio gyda GigaTAG wrth iddo ddatblygu ymhellach ei syniadau ar sut i wella'r wybodaeth sydd ar gael i bobl a busnesau. Mae'r prosiect cyfathrebu agored hefyd yn ceisio edrych ar ffyrdd o roi gwybod i ddefnyddwyr am y gwasanaethau cyfathrebu cywir ar eu cyfer.

# Yn sail i'n gwaith ehangach

## Ymgyngoriadau

A1.230 Croesawodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl newidiadau diweddar i ymgyngoriadau Ofcom, gan annog Ofcom i barhau i gynnal digwyddiadau ymgynghori ar-lein i gasglu safbwyntiau ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, ac annog Ofcom i sicrhau bod pob ymgynghoriad polisi ar gael i'r ystod ehangaf o ymatebwyr posibl.

### Ein hymateb

A1.231 Rydym yn awyddus i sicrhau bod ymgyngoriadau Ofcom ar gael i'r amrywiaeth ehangaf posibl o ymatebwyr. Rydym yn croesawu argymhellion y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y byddwn yn eu trafod ymhellach gyda nhw yn ystod y misoedd nesaf.

## Gwerthuso ein gwaith

A1.232 Roedd Ymddiriedolaeth Carnegie UK yn cefnogi ymrwymiad Ofcom i werthuso ei waith, gan nodi y dylai rheoleiddwyr gyhoeddi a hyrwyddo eu data effaith a chanlyniadau yn rheolaidd i ategu dysgu ar y cyd a gweld cynnydd o ran metrigau allweddol.

### Ein hymateb

A1.233 Mae gwerthuso ein perfformiad yn fater o bwys i ni, ac rydym yn ymdrechu i ddeall effeithiolrwydd ein hymyriadau a'n gweithgarwch rheoleiddio. Mae gennym raglenni monitro a gwerthuso amrywiol sy'n ystyried effaith ansoddol a meintiol ein gweithgarwch ar draws marchnadoedd cyfathrebu. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau manwl o ymyriadau polisi dethol ar ddiwedd y daith.

## Cynllunio a blaenoriaethu

A1.234 Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi cynllun a blaenoriaethau Ofcom yn gyffredinol. Heriodd TalkTalk Ofcom ar ei ffocws ar y sector Telegyfathrebiadau yn wyneb y ffaith bod ei gylch gwaith yn ehangu, gan fynnu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i fand eang sefydlog yn y Cynllun Gwaith.

A1.235 Cyfeiriodd TalkTalk at dasglu GigaTag, sy'n edrych ar annog defnydd o rwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, a disgwylir iddo adrodd yn y gwanwyn, gan ofyn i Ofcom ystyried yr argymhellion fydd yn yr adroddiad.

### Ein hymateb

A1.236 Wrth benderfynu ar gynllun gwaith Ofcom, rydym yn cydbwyso anghenion dinasyddion a defnyddwyr y Deyrnas Unedig mewn materion cyfathrebu â'n hadnoddau. Rydym o'r farn bod y prosiectau a'r blaenoriaethau strategol rydym wedi eu nodi yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng pwerau a dyletswyddau Ofcom ar draws ein cylch gwaith. Rydym yn nodi pryderon TalkTalk ac yn parhau i flaenoriaethu anghenion y sector Telegyfathrebiadau drwy ein strwythur sefydliadol a'n themâu strategol.

A1.237 Rydym yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Ddefnyddio Gigabeitiau (GigaTAG), a gynullwyd gan Which? ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n archwilio'r dewisiadau ar gyfer diwydiant a rheoleiddwyr.

## Ymchwil Ofcom

A1.238 Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i ymchwil Ofcom. Anogodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK Ofcom i ehangu nifer a math y cyfranogwyr mewn grwpiau ymchwil i sicrhau y gwrandewir ar grwpiau anodd eu cyrraedd. Awgrymodd RNIB fod Ofcom yn ymchwilio i anghenion hygyrchedd chwaraewyr gemau fideo er mwyn hwyluso ac annog hygyrchedd mewn gemau. Awgrymodd RNIB hefyd fod Ofcom yn cynnal yr adroddiad ar fynediad a chynhwysiant ac adroddiadau ar agweddau a defnydd o gyfryngau yn yr un lleoliad ar-lein, gan wneud anghenion hygyrchedd defnyddwyr yn fwy amlwg.

A1.239 Gofynnodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK hefyd i Ofcom ystyried cynnig data, arbenigedd a chyngor i ymchwilwyr sy'n datblygu llinell sylfaen cynhwysiant digidol, sef y 'safon ddigidol sylfaenol'.

### Ein hymateb

A1.240 Yn ein rhaglen ymchwil i'r farchnad, rydym bob amser yn cydbwyso cyfyngiadau cyllidebol â'r angen i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o wahanol grwpiau o ddefnyddwyr. Ar gyfer ein holl brif arolygon tracio rhaglenni, rydym yn cynnwys cwotâu i sicrhau bod gennym ddigon o samplau ar gyfer rhai grwpiau 'anodd eu cyrraedd' (er enghraifft, defnyddwyr gwledig, defnyddwyr yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig, ethnigrwydd, bregusrwydd). Mae'r un peth yn berthnasol i'n hymchwil ansoddol yn dibynnu ar y pwnc. Yn ogystal, pan

fo angen, byddwn yn buddsoddi mewn ymchwilio i samplau mawr o ddefnyddwyr er mwyn sicrhau bod yr holl grwpiau y mae angen i ni ymchwilio iddyn nhw yn cael eu cynnwys.

A1.241 Mae gemau fideo y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio uniongyrchol Ofcom ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gemau fideo o ran adloniant a chyfathrebu ac rydym yn ceisio deall yn well beth yw defnydd ac agweddau defnyddwyr tuag atyn nhw, gan gynnwys drwy ein hymchwil llythrennedd yn y cyfryngau. O ran cynnal yr adroddiadau Mynediad a Chynhwysiant ochr yn ochr ag adroddiadau eraill ar agweddau a defnydd o gyfryngau; rydym yn croesawu'r awgrym hwn, ac rydym wedi ychwanegu dolenni rhwng y dudalen ymchwil mynediad a chynhwysiant a'r tudalennau ar agweddau a defnydd plant o gyfryngau a defnydd oedolion o gyfryngau at wefan Ofcom.

A1.242 Rydym yn parhau i feddu ar bolisi data agored, gyda'r holl setiau data meintiol yn cael eu rhannu ar ein gwefan. Rydym hefyd yn agored iawn i rannu ein harbenigedd a'n cyngor, yn ogystal â manteisio ar arbenigedd a chyngor pobl eraill. Fel enghraifft o'n cydweithio ag ymchwilwyr ac arbenigwyr allanol, mae ein panel cynghori a rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac sydd bellach yn cynnwys dros 200 o aelodau, yn dod â chynrychiolwyr arbenigol o bob rhan o ddiwydiant, y trydydd sector a'r byd academaidd at ei gilydd i drafod a goleuo gwaith polisi ac ymchwil Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau. Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r holl ymchwil a wneir ac rydym yn cynnig setiau data rhyngweithiol fwyfwy er mwyn sicrhau bod data mor hygyrch â phosibl ar gael i'r holl randdeiliaid.

## Y Gofrestrfa Wybodaeth

A1.243 Roedd llawer o'n rhanddeiliaid o blaid datblygu'r gofrestrfa wybodaeth. Nododd BT fod ceisiadau am wybodaeth yn parhau i fod yn faich ar adnoddau rhanddeiliaid, gan awgrymu bod angen sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Nododd Openreach ddiddordeb mewn rhannu unrhyw beth a ddysgir y gellid ei ddefnyddio i wella'r broses ymateb, a chynigiodd y dylai Ofcom ddiffinio a chyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyswllt ceisiadau am wybodaeth - er enghraifft, nifer, costau a manteision ceisiadau.

### Ein hymateb

A1.244 Y llynedd, lansiodd Ofcom y Gofrestrfa Wybodaeth, sef tîm newydd a luniwyd i ganoli a symleiddio gweithgareddau casglu gwybodaeth Ofcom. Yn ystod 21/22 bydd y tîm yn parhau â'i waith gyda thimau prosiect a rhanddeiliaid Ofcom i sicrhau bod gennym ddull cydlynol o gasglu gwybodaeth, darparu cymorth gweithredol i dimau prosiect yn Ofcom a gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i gwmnïau ar faterion casglu gwybodaeth. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr adborth ar ein gweithgareddau hyd yma ac wedi ystyried hyn wrth ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer y Gofrestrfa dros y flwyddyn nesaf.[12] Mae hyn yn cynnwys parhau â'n gwaith i gynyddu tryloywder; canfod a rheoli adegau posibl o

[12] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines/information-registry

brysurdeb yn y gweithgarwch; gofyn am adborth yn barhaus a pharhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall sut gallwn barhau i wella ein prosesau casglu gwybodaeth.

## Gogledd Iwerddon

A1.245 Nododd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon bryder nad oedd aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A1.246 Roedd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon yn croesawu rôl Ofcom yn cefnogi cynlluniau i gyflwyno ffeibr llawn a gwella darpariaeth symudol, ac roedden nhw'n gobeithio cyfrannu at y gwaith hwn drwy sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei glywed wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu.

### Ein hymateb

A1.247 Rydym yn awyddus i gytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Cynulliad Gogledd Iwerddon a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a fydd yn cynnwys penodi Aelod o Fwrdd Ofcom ar ran Gogledd Iwerddon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr ynghylch y cynlluniau cyflwyno band eang a symudol amrywiol yng Ngogledd Iwerddon.

## Cymru

A1.248 Nododd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhyngddi ac Ofcom, a'i nod o gryfhau elfennau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrth bennu blaenoriaethau strategol Ofcom mewn perthynas â gweithgareddau yng Nghymru.

A1.249 Mynegodd Pwyllgor Cynghori Ofcom Cymru bryderon am iechyd radio cymunedol yng Nghymru, a mynegodd gefnogaeth i gronfeydd caledi radio cymunedol ledled y Deyrnas Unedig.

A1.250 Tynnodd Pwyllgor Cynghori Ofcom Cymru sylw hefyd at werth posibl amgylcheddau gwledig Cymru ar gyfer datblygu technoleg gofod gwyn Amledd Uchel Iawn a datblygiadau gwasanaeth amledd uwch, gan ddefnyddio 5G mmWave neu dechnolegau eraill ar gyfer cysylltedd gwledig.

### Ein hymateb

A1.251 Mae trafodaethau'n parhau ynghylch yr adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Senedd Cymru.

A1.252 Bydd tîm Ofcom yng Nghymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a deiliaid trwyddedau i gynnal gweithdy ar weithredu'r gronfa radio cymunedol er mwyn annog ceisiadau o Gymru.

A1.253 Rydym yn rhan o grŵp llywio Profi a Threialu 5G y Deyrnas Unedig ar gymunedau cysylltiedig yn yr economïau gwledig.[13] Rydym wedi trefnu gweithdai ar 5G ar gyfer llinellau fertigol yng Nghymru.

## Hyrwyddwr Busnes

A1.254 Awgrymodd Cymdeithas y Darparwyr Gwasanaethau Teleffoni Rhyngrwyd (ITSPA) y dylai Ofcom benodi 'hyrwyddwr busnes' yn Ofcom i feithrin gwell dealltwriaeth o'r dirwedd fasnachol.

### Ein hymateb

A1.255 Mae'n hanfodol bod gennym ddealltwriaeth fasnachol drylwyr o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio er mwyn cyflawni ein dyletswyddau fel rheoleiddiwr. Byddwn yn canolbwyntio ar y galluoedd hyn drwy recriwtio cydweithwyr sydd â phrofiad masnachol, gan ddefnyddio secondiadau, a pharhau â'n rhaglen ymchwil defnyddwyr a masnachol.

## Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

A1.256 Anogodd BT Ofcom i archwilio unrhyw faes lle gellid addasu Deddfwriaeth Ewropeaidd er mwyn adlewyrchu marchnad y Deyrnas Unedig yn well, a gofynnodd am eglurder ar ganllawiau ar gyfer rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig yng nghyswllt crwydro rhyngwladol. Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon hefyd wedi gofyn am sicrwydd y bydd digon o ddiogelwch i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon rhag ffioedd crwydro symudol, gan nodi ei bod yn bosibl na fydd y fframwaith cyfreithiol presennol ynghylch crwydro yn darparu digon o amddiffyniad i ddefnyddwyr.

### Ein hymateb

A1.257 O dan delerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig/Undeb Ewropeaidd, nid yw darparwyr symudol yn y Deyrnas Unedig yn rhwym wrth gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar grwydro mwyach, ac nid oes gan Ofcom bŵer i fynnu bod darparwyr yn capio cyfraddau crwydro manwerthu a chyfanwerthu'r Undeb Ewropeaidd o dan gyfraith y Deyrnas Unedig. Rydym wedi gofyn i'r holl weithredwyr rhwydweithiau symudol roi gwybod i ni am y datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn, ac ar hyn o bryd ein dealltwriaeth ni yw nad oes ganddyn nhw gynlluniau ar hyn o bryd i ailgyflwyno gordaliadau crwydro'r Undeb Ewropeaidd cyn belled â bod y sefyllfa hon yn dal yn fasnachol hyfyw. Rydym yn ymwybodol o'r materion penodol sy'n gallu effeithio ar bobl yng Ngogledd Iwerddon a byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau'n ofalus.

[13] https://uk5g.org/discover/testbeds-and-trials/connected-communities-rural-economy-cocore/

## Gorfodi

A1.258 Nododd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol bryderon ynghylch nifer y darlledwyr radio heb drwydded ac awgrymodd y gallai’r amleddau maen nhw’n gweithredu arnyn nhw fod ar gael i orsafoedd radio cymunedol.

### Ein hymateb

A1.259 Mae tîm Cydymffurfiaeth Sbectrwm Ofcom yn parhau i weithio ar dynnu darlledwyr anghyfreithlon oddi ar y tonnau awyr. Nid yw’r amleddau’n hyfyw ar gyfer gwasanaethau newydd ac mae’r defnyddwyr heb drwydded fel arfer yn achosi ymyriant i wasanaethau cyfreithlon a’u gwrandawyr.